

**dti**

**Y RHWYDWAITH  
SWYDDFEYDD POST**

Ymateb y Llywodraeth  
i ymgynghoriad cyhoeddus

MAI 2007



# Cynnwys

Crynodeb Gweithredol	2
Adran 1: Cyflwyniad	5
Y Cefndir	5
Y Broses Ymgynghori	6
Dadansoddiad o Themâu	7
Adran 2: Crynodeb o Ymatebion i Gwestiynau 1-7	9
Crynodeb o Safbwyntiau a Sylwadau	9
Penderfyniadau'r Llywodraeth	
Adran 3: Y Camau Nesaf	28
Atodiad A: Rhestr Atebwyr	30

# Crynodeb Gweithredol

Mae gan swyddfeydd post rôl gymdeithasol ac economaidd bwysig yn y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Ond oherwydd technoleg newydd, y newid mewn dulliau byw, a dewis ehangach o ffyrdd o gael at wasanaethau, mae pobl yn ymweld llai â swyddfeydd post. Cododd colledion y rhwydwaith o tua £2 filiwn yr wythnos yn 2005 i bron i £4 miliwn yr wythnos y llynedd, ac maent yn debygol o gynyddu ymhellach oni bai bod camau'n cael eu cymryd i wneud y rhwydwaith yn fwy cynaliadwy.

Fodd bynnag, mae'r Llywodraeth yn dal yn ymrwymedig i gynnal rhwydwaith o swyddfeydd post sy'n cwmpasu Prydain gyfan, ac mae'n sefydlu polisi a fframwaith ariannol newydd i gyflawni hyn. Ar 14 Rhagfyr 2006, cychwynnodd y Llywodraeth ymgynghoriad cyhoeddus 12 wythnos o hyd ynglŷn ag amrywiaeth o fesurau arfaethedig, gyda buddsoddiad o hyd at £1.7 miliwn yn sail iddynt, i foderneiddio ac ail-lunio'r rhwydwaith a'i roi ar sylfaen gadarn.

Derbyniasom dros 2,500 o ymatebion, ac mae rhagor o fanylion ynglŷn â'r rhain wedi eu darparu yn adran 1 y ddogfen hon ac yn Atodiad A. Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r ymatebion i'r saith cwestiwn penodol a ofynnwyd yn y ddogfen ymgynghori, ynghyd â sylwadau ehangach ar y rhwydwaith swyddfeydd post a'i rôl a'i gyfeiriad i'r dyfodol. Y mae hefyd yn cyflwyno penderfyniadau'r Llywodraeth yng ngolau'r ymgynghoriad.

Yn neilltuol, mae'r Llywodraeth wedi penderfynu (yn amodol ar ganiatâd yr UE i roi cymorth gwladwriaethol) y bydd yn darparu noddiant ariannol hyd at gyfanswm o £1.7 biliwn erbyn 2011 i gefnogi'r newidiadau angenrheidiol i'r rhwydwaith, er mwyn ei roi ar sylfaen fwy sefydlog a darparu cefnogaeth barhaus i'r rhwydwaith cymdeithasol.

Byddwn yn cyflwyno fframwaith newydd o feini prawf mynediad sylfaenol ar gyfer cynnal rhwydwaith cenedlaethol o swyddfeydd post ac, yn neilltuol, ar gyfer amddiffyn cwsmeriaid bregus mewn ardaloedd trefol, gwledig a phellennig difreintiedig:

- Ar lefel genedlaethol, 99% o boblogaeth y DU i fod o fewn 3 milltir i'w swyddfa bost agosaf, a 90% o'r boblogaeth i fod o fewn 1 filltir iddi.
- 99% o'r boblogaeth gyfan mewn ardaloedd trefol difreintiedig ledled y DU i fod o fewn 1 filltir i'r swyddfa bost agosaf.
- 95% o'r boblogaeth drefol gyfan ledled y DU i fod o fewn 1 filltir i'w swyddfa bost agosaf.

- 10 95% o'r boblogaeth wledig gyfan ledled y DU i fod o fewn 3 milltir i'w swyddfa bost agosaf.

Yn ychwanegol at hynny, ar gyfer pob ardal cod post unigol:

- 10 95% o boblogaeth yr ardal cod post i fod o fewn 6 milltir i'w swyddfa bost agosaf.

Wrth gymhwyso'r meini prawf hyn, bydd gofyn i Post Office Ltd gymryd i ystyriaeth rwystrau megis afonydd, mynyddoedd a chymoedd, traffyrdd, a mordeithiau i nysoedd, er mwyn osgoi caledi gormodol.

Wrth lunio cynlluniau ardal, bydd Post Office Ltd yn ystyried, yn ogystal: argaeledd cludiant cyhoeddus a dulliau eraill o gael at wasanaethau allweddol; demograffeg leol; a'r effaith ar economïau lleol.

Bydd gofyn i Post Office Ltd sicrhau y bydd 95% o'r boblogaeth o fewn 6 milltir i'w swyddfa bost agosaf, ym mhob ardal cod post yn ddieithriad, erbyn diwedd gweithrediad y cynllun ardal leol.

Bydd noddiant ariannol y Llywodraeth yn cefnogi newidiadau strategol i'r rhwydwaith. Bydd 2,500 o swyddfeydd post yn cael eu cau, gan greu cyfleusterau eraill i wneud iawn am hynny, oddi mewn i'r fframwaith meini prawf mynediad uchod. Mae'r Llywodraeth yn disgwyl y bydd Post Office Ltd yn gweithredu hyn dros gyfnod o 18 mis, gan ddechrau yn ystod haf 2007. Bydd Post Office Ltd yn sefydlu lleoliadau Allgymorth newydd i'w gwneud yn bosibl cael at wasanaethau, a bydd y Llywodraeth yn darparu cefnogaeth ar gyfer tua 500 o'r rhain er mwyn lliniaru effaith cau swyddfeydd post.

Bydd cyfrif newydd yn cael ei gyflwyno i olynu cyfrif cerdyn Swyddfa'r Post, ac fe fydd ar gael ledled Prydain ac ar yr un telerau cymhwyster ag sy'n bodoli'n awr. Bydd y Llywodraeth yn gwahodd tendrau am y gwasanaeth hwn yn unol â rheolau'r UE.

Bydd Post Office Ltd yn llunio cynlluniau ardal ar gyfer cau swyddfeydd post, ac ar gyfer newidiadau eraill yn y ddarpariaeth o wasanaethau, oddi mewn i'r fframwaith uchod. Bydd Post Office Ltd yn cychwyn y broses hon ar unwaith, a gyda hyn bydd yn ymofyn gwybodaeth a mewnbwn gan bartïon perthnasol, gan gynnwys Postwatch, is-bostfeistri ac awdurdodau lleol, wrth i gynigion ar gyfer cynlluniau ardal gael eu datblygu ar gyfer ymgynghori cyhoeddus lleol.

Yn genedlaethol, fe fydd oddeutu 50–60 o gynlluniau ardal, a fydd wedi eu sylfaenu'n bennaf ar grwpiau o etholaethau seneddol, ond gan ganiatáu'r hyblygrwydd i Post Office Ltd a Postwatch sefydlu ffiniau gwahanol lle mae ystyriaethau lleol yn gorfodi hynny.

Bydd pob cynllun ardal leol unigol yn destun ymgynghoriad cyhoeddus 6 wythnos o hyd. Mae rôl Postwatch ac awdurdodau lleol yn natblygiad cynigion ar gyfer cau swyddfeydd post, a newidiadau eraill, ac ar gyfer ymgynghori lleol yn eu cylch, wedi ei hegluro mewn Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth sydd wedi ei lofnodi gan Post Office Ltd a Postwatch, ac sy'n cael ei ddisgrifio'n fanylach isod. Wrth lunio'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn, mae Post Office Ltd a Postwatch wedi gwneud defnydd helaeth o'r gwersi a ddysgwyd o'r rhaglen Ailddyfeisio Trefol.

## Y Rhwydwaith Swyddfeydd Post

Bydd y broses hon yn caniatáu cyfle hefyd i bwysu a mesur sut y gall awdurdodau lleol gydweithio'n well â Post Office Ltd i sianelu rhagor o fusnes drwy swyddfeydd post, er mwyn cryfhau eu hyfywdra. Bydd yn gyfle hefyd i archwilio'r posibilïadau o gydletya neu gydleoli gwasanaethau swyddfa bost a chyfleusterau awdurdodau lleol dan y rhaglen ar gyfer newid y rhwydwaith, neu'n ehangach wrth sefydlu gwasanaethau Allgymorth.

Mewn perthynas â phenderfyniadau ar ddarparu gwasanaethau swyddfa bost, byddwn yn gweithio ar gynigion ar gyfer datganoli mwy o'r cyfrifoldeb amdanynt i lefel leol ar ôl 2011; a byddwn yn gweithio ar gynigion ar gyfer darparu mwy o hyblygrwydd ar gyfer penderfyniadau lleol ar ariannu.

# Cyflwyniad

## Y cefndir

Mae swyddfeydd post yn wynebu her hirdymor. Mae datblygiadau mewn technoleg ac mewn sianelau darparu gwasanaethau — megis gwasanaethau ar-lein, e-bost, a gwasanaethau bancio ac adwerthu dros y ffôn a'r rhyngwrwyd — yn ei gwneud yn gynyddol bosibl i bobl wneud dewisiadau ynglŷn â sut y maent yn cyfathrebu ac yn masnachu. Mae effaith y dewisiadau ehangach hyn yn dod yn fwyfwy sylweddol. Mae rhyw bedair miliwn yn llai o bobl yn defnyddio'u swyddfa bost bob wythnos nag yr oedd ddwy flynedd yn ôl. Mae colledion wythnosol y rhwydwaith wedi codi o £2 miliwn yn 2005–06 i £4 miliwn yn y flwyddyn ariannol 2006-07. Yn erbyn y cefndir hwn, mae Ffederasiwn Cenedlaethol yr Is-bostfeistri wedi cydnabod bod maint presennol y rhwydwaith, sef dros 14,000 o swyddfeydd, yn anghynaliadwy; ac mae Pwyllgor Masnach a Diwydiant Tŷ'r Cyffredin wedi cydnabod bod llawer o dystion sy'n cyflwyno tystiolaeth ger eu bron, hefyd, yn credu bod y rhwydwaith yn anghynaliadwy.

Mae swyddfeydd post yn darparu gwasanaethau allweddol mewn pentrefi, trefi a dinasoedd ledled Prydain, ac yn chwarae rôl gymdeithasol bwysig yn ychwanegol at eu gwerth economaidd. Mewn cydnabyddiaeth o hyn, mae'r Llywodraeth wedi buddsoddi £2 biliwn ers 1999 i gynnal y rhwydwaith, ac wedi cadarnhau y bydd yn parhau i sicrhau bod cefnogaeth ariannol ar gael. Ar 14 Rhagfyr 2006, fe gyflwynodd, ar gyfer ymgyngoriad cyhoeddus, ei strategaeth arfaethedig i'r dyfodol ar gyfer y rhwydwaith swyddfeydd post, wedi ei seilio ar becyn ariannu o hyd at £1.7 biliwn dros y cyfnod tan 2011, i helpu i gynnal rhwydwaith cenedlaethol a helpu Post Office Ltd i wneud newidiadau angenrheidiol er mwyn gweddnewid y rhwydwaith a'i osod ar sylfaen sefydlog i'r dyfodol.

Mae strategaeth y Llywodraeth i'r dyfodol, a'i phegyn ariannu, ynghyd â chyflwyniad meini prawf mynediad, yn cydnabod rôl gymdeithasol ac economaidd swyddfeydd post, ac yn adlewyrchu ymrwymiad y Llywodraeth i ddiogelu cymunedau cynaliadwy a darparu fframwaith hyblyg a fydd yn galluogi Post Office Ltd i ymateb i ddatblygiadau newydd. Mae gan y Llywodraeth ymrwymiad i weithio gyda chynghorau, asiantaethau a phobl leol, ac mae'n cydnabod y gwerth y mae swyddfeydd post yn ei ychwanegu at gymunedau lleol. Bydd yn darparu hyd at £150 miliwn y flwyddyn o gefnogaeth barhaus ar gyfer y rhwydwaith gymdeithasol am y cyfnod tan 2011. Ynghyd â chyflwyno Allgymorth a chefnogaeth i swyddfeydd post sy'n cael eu rhedeg gan y

## Y Rhwydwaith Swyddfeydd Post

gymuned, bydd hyn yn sicrhau bod rhwydwaith cenedlaethol sy'n cwmpasu Prydain gyfan yn aros yn hyfyw.

Y tu hwnt i 2011, bydd yr angen am gefnogaeth y cyhoedd i'r rhwydwaith cymdeithasol yn parhau. Bydd y meini prawf sy'n cael eu cyflwyno yn y ddogfen hon yn darparu fframwaith ar gyfer sicrhau rhwydwaith swyddfeydd post cenedlaethol, gydag amddiffyniadau penodol mewn ardaloedd difreintiedig trefol, gwledig a phellennig i ddiogelu cwsmeriaid bregus. Mae'r meini prawf hefyd yn darparu fframwaith lle bydd disgwyl i Post Office Ltd ymateb i gymunedau newydd a datblygol a darparu ar eu cyfer.

Mae'r pecyn hwn o fesurau gan y Llywodraeth yn cael ei ategu gan y camau y mae Post Office Ltd yn eu cymryd i foderneiddio'r rhwydwaith masnachol, gan adfer swyddfeydd y Goron i broffidioldeb, buddsoddi mewn cynhyrchion a gwasanaethau newydd, ac edrych ar ffyrdd arloesol o ddarparu mewn modd mwy cost-efeithiol y gwasanaethau y mae ar bobl eu hangen.

Mae newidiadau i faint y rhwydwaith yn angenrheidiol, ond bydd mesurau i ddiogelu cymunedau bregus yn cael eu sefydlu. Yn ychwanegol at feini prawf mynediad, fe geir ehangiad sylweddol yn y gwasanaethau Allgymorth sy'n cael eu darparu gan is-bostfeistri i gymunedau bychain gerllaw.

Gyda'i gilydd, mae cynigion y Llywodraeth wedi eu cynllunio i ddarparu rhwydwaith cenedlaethol ar sylfaen sefydlog.

## Y Broses Ymgynghori

Rhedodd ymgynghoriad cyhoeddus y Llywodraeth ynglŷn â'i chynigion strategaeth ar gyfer y rhwydwaith am 12 wythnos rhwng 14 Rhagfyr 2006 ac 8 Mawrth 2007.

Enynnodd yr ymgynghoriad dros 2,500 o ymatebion gan unigolion a gan sefydliadau a chyrrff cynrychiadol ar lefel leol ac ar lefel genedlaethol. Yr oedd yr ymatebion gan lawer o sefydliadau a chyrrff cynrychiadol yn adlewyrchu safbwyntiau a sylwadau a gyflwynwyd gan eu haelodau neu gan grwpiau perthynol.

Ym mis Mawrth, cyhoeddodd y Pwyllgor Masnach a Diwydiant ei adroddiad 'Stamp of Approval? Restructuring the Post Office Network' yn ogystal, yn dilyn ei ymchwiliad.


Yn ystod y cyfnod ymgynghori, ac o'i flaen, cafodd Gweinidogion a swyddogion gysylltiadau helaeth hefyd gyda chyfranogion allweddol, gan gynnwys Postwatch a'i Grŵp Ymgynghorol ar Gownteri (sy'n cynnwys ystod eang o gyrff sy'n cynrychioli defnyddwyr), Postcomm, y Comisiwn dros Gymunedau Gwledig (ac mewn cyfarfodydd grwpiau manylu a alwyd yn arbennig mewn lleoliadau gwledig), a Ffederasiwn Cenedlaethol yr Is-bostfeistri (mewn cyfarfodydd o'i Gyngor Gweithredol ac o'i ganghennau).

Mae llawer o Aelodau Seneddol wedi cyfrannu at ddadleuon seneddol ar faterion a oedd yn ymwneud â'r rhwydwaith swyddfeydd post, a chafwyd cyfres o gyfarfodydd gweithgor rhyngadrannol. Darparodd yr holl ddigwyddiadau a chysylltiadau hyn oleuni a safbwyntiau gwerthfawr ar y problemau sy'n wynebu'r rhwydwaith swyddfeydd post, ac ynglŷn â rôl swyddfeydd post yn y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu.


Mae'r holl gyfraniadau hyn wedi eu hadolygu a'u cloriannu am y safbwyntiau a'r pryderon a fynegwyd, y cynigion a gyflwynwyd, y casgliadau a dynnwyd, a'r

argymhellion a wnaed. Buont y ddefnyddiol o ran dylanwadu ar benderfyniadau terfynol y Llywodraeth a rhoi ffurf arnynt.

### Ymatebion yn ôl Gwlad/Rhanbarth yn Lloegr



### Dadansoddiad o Atebwyr yn ôl Math



## Dadansoddiad o Themâu

Cafwyd cydnabyddiaeth eang o faint y problemau y mae'r rhwydwaith yn eu hwynebu, ac o'r angen am weithredu er mwyn gosod y rhwydwaith ar sylfaen fwy sefydlog; a chafwyd cefnogaeth gyffredinol, neu o leiaf dderbyniad, i elfennau allweddol canlynol strategaeth arfaethedig y Llywodraeth:

- ei chydabyddiaeth o bwysigrwydd rôl gymdeithasol ac economaidd swyddfeydd post
- ei chydabyddiaeth o'r angen am barhau â chymhorthdal i gynnal y rhannau hynny o'r rhwydwaith na fydd byth yn gallu bod yn fasnachol ond sy'n darparu gwasanaethau allweddol mewn cymunedau gwledig a chymunedau trefol difreintiedig;

## Y Rhwydwaith Swyddfeydd Post

- cyflwyniad meini prawf mynediad er mwyn cynnal rhwydwaith cenedlaethol ac amddiffyn cwsmeriaid bregus;
- yr ymrwymiad i becyn ariannu sylweddol iawn
- yr ymrwymiad i olynydd i gyfrif cerdyn Swyddfa'r Post y tu hwnt i 2010, a
- y defnydd o wasanaethau Allgymorth i liniaru effaith cau swyddfeydd post.

Mewn perthynas ag agweddau mwy penodol, yr oedd llawer o ymatebion yn canolbwyntio ar:

- y diffiniad o rôl gymdeithasol ac economaidd swyddfeydd post,
- dadansoddiad o'r pecyn ariannu,
- cynaliadwyedd y rhwydwaith i'r dyfodol;
- sut y gellir lliniaru crebachu yn y dyfodol,
- yr amrywiaeth o ffactorau sydd i'w hystyried mewn cysylltiad â meini prawf mynediad wrth gynnig cau swyddfeydd post a newidiadau eraill yn y ddarpariaeth o wasanaethau, a
- hyd y cyfnod ymgynghori lleol a'r rhaglen gyfan.

# Ymatebion i Gwestiynau yn y Ddogfen Ymgynghori

## Strategaeth ar gyfer y Rhwydwaith i'r Dyfodol

C1. A ydych o'r farn fod blaen-strategaeth y Llywodraeth ar gyfer y rhwydwaith swyddfeydd post yn mynd i'r afael â'r holl ystyriaethau a heriau allweddol y mae'r rhwydwaith yn eu hwynebu?

C2. A oes unrhyw ffactorau sylweddol sy'n effeithio ar ddyfodol y rhwydwaith swyddfeydd post ond sy'n ymddangos fel pe baent wedi eu hanghofio wrth i'r Llywodraeth benderfynu ar ei dull arfaethedig?

Aeth mwyafrif mawr o'r ymatebion i'r afael â'r materion hyn gyda'i gilydd, ac felly mae'r ddau gwestiwn yn cael eu trin gyda'i gilydd yn ymateb y Llywodraeth isod.

Nid yw'r crynodeb yn ceisio ailadrodd pob sylw a wnaed, ond mae'n anelu at gynnwys yr ystyriaethau a oedd yn gyffredin i lawer o ymatebion, a'r pryderon a gafodd eu hadlewyrchu'n eang mewn amrywiaeth o ymatebion.

## Cynaliadwyedd

Yr oedd mwyafrif mawr o'r atebwyr yn croesawu ymrwymiad y Llywodraeth i gynnal rhwydwaith cenedlaethol sefydlog sy'n cwmpasu Prydain gyfan, ac yr oeddynt hefyd yn croesawu cydnabyddiaeth y Llywodraeth fod gan swyddfeydd post werth cymdeithasol yn ogystal ag economaidd. Y mae cydnabyddiaeth eang i'r ffaith fod pobl yn newid y modd y maent yn cael at wasanaethau, a bod angen i'r rhwydwaith newid er mwyn sicrhau ei fod yn cynyddu ei allu i ddenu busnes a darparu gwasanaethau newydd y bydd ar bobl eu heisiau yn y dyfodol. Mae llawer o atebwyr yn derbyn bod y rhwydwaith presennol yn anghynaliadwy a bod cau rhai swyddfeydd post yn angenrheidiol; ond pwysleisiasant y rôl gymdeithasol sydd gan y rhwydwaith swyddfeydd post, a phwysigrwydd rhoi pwyslais dyladwy ar hyn, ochr yn ochr ag ystyriaethau economaidd. Cafwyd pwyslais cyffredin ar rôl swyddfeydd post o ran hybu cynhwysiad cymdeithasol a gweithredu fel canolbwyt cymdeithasol llawer o gymunedau.

Yr oedd nifer o atebwyr yn amheus a oedd y cynigion yn ddigon i roi'r rhwydwaith ar sylfaen wirioneddol gynaliadwy ar gyfer y tymor hirach, a galwasant am ymrwymiadau penodol i noddiant ariannol y tu hwnt i 2011 er mwyn creu mwy o sicrwydd i gwsmeriaid ac is-bostfeistri fel ei gilydd.

Mae'r Llywodraeth yn cydnabod y bydd gofyn noddiant ariannol pellach y tu hwnt i 2011. Rydym yn derbyn yn llawn fod yna rai rhannau o'r rhwydwaith na allant fyth fod yn fasnachol, ac y bydd angen parhau i'w hariannu. Ond byddai'n gynamserol i lunio barn yn awr ynglŷn â pha lefel o gymhorthdal a allai fod yn ofynnol ymhen pedair blynedd, o wybod y newidiadau sydd yn yr arfaeth ar gyfer y rhwydwaith yn y cyfamser.

Heb gefnogaeth gyhoeddus barhaus, byddai rhwydwaith cwbl fasnachol yn cynnwys llai na 4,000 o ganghennau; byddai hyn yn golygu cau dros 10,000 o swyddfeydd post. Ni ellir caniatáu i hynny ddigwydd. Dyna pam y mae'r Llywodraeth yn darparu cefnogaeth barhaus er mwyn cynnal rhwydwaith sy'n gwirioneddol gwmpasu Prydain gyfan. Dyna hefyd pam y mae'n sefydlu meini prawf manwl ar gyfer mynediad er mwyn sicrhau hyn, ynghyd â meini prawf atodol sy'n canolbwyntio ar sicrhau presenoldeb rhesymol mewn ardaloedd lle mae'r angen cymdeithasol ar ei fwyaf.

Pwrpas y pecyn ariannu hwn yw dod â sefydlogrwydd i'r rhwydwaith erbyn 2011, drwy iddo leihau colledion a dod yn fwy cystadleuol tra'n sicrhau bod anghenion cymdeithasol cymunedau gwledig a chymunedau difreintiedig yn parhau i gael eu diwallu.

Nid ydym yn gweld unrhyw gyfiawnhad dros gynyddu maint y rhwydwaith, fel yr awgrymodd rhai atebwyr. Mae'r rhwydwaith presennol yn dal i fod yn fwy o ran nifer na changhennau'r holl fanciau a chymdeithasau adeiladu gyda'i gilydd. Nid nifer absoliwt y swyddfeydd post sy'n bwysig, ond ymhle y maent wedi eu lleoli, ac ym mha ffyrdd y bydd gwasanaethau'n cael eu darparu a fydd yn helpu i gynnal hyfywdra'r rhwydwaith ac yn darparu'r cwmpasiad cenedlaethol y mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo iddo.

## Ariannu

Cafwyd croeso cyffredinol i'r ymrwymiad parhaus i Daliad Rhwydwaith Cymdeithasol hyd at 2011 a thu hwnt, ond mynegodd rhai ymgynghoreion bryder y byddai ei ymestyn i'r rhwydwaith anfasnachol trefol ar ôl Mawrth 2008 yn deillio ar leihad cyffredinol mewn cefnogaeth i'r rhwydwaith gwledig. Gofynnodd llawer o atebwyr hefyd am ddadansoddiad o'r pecyn ariannu £1.7 biliwn. Dadleuodd rhai dros gymhorthdal mwy, er mwyn osgoi'r angen am gau unrhyw swyddfeydd post; pwysodd eraill am i'r Taliad Rhwydwaith Cymdeithasol gael ei gynnal ar lefel a fyddai'n sicrhau bod anghenion ardaloedd tenau eu poblogaeth ac ardaloedd difreintiedig yn cael eu diwallu. Awgrymodd sawl atebydd y dylai fod cefnogaeth uniongyrchol i is-bostfeistri, ac arian ar gyfer helpu i ailwampio a gwella swyddfeydd post gwledig.

Mae'r Llywodraeth wedi penderfynu y dylai'r Taliad Rhwydwaith Cymdeithasol, o Ebrill 2008 ymlaen, gynnal swyddfeydd anfasnachol ledled y rhwydwaith cyfan, nid rhai gwledig yn unig. Y mae o'r farn mai'r flaenoriaeth bennaf yw cynnal rhwydwaith cenedlaethol sy'n cwmpasu Prydain gyfan, fel y pennir yn y meini prawf mynediad. Bydd hyn yn gofyn cefnogaeth i swyddfeydd post anfasnachol mewn ardaloedd trefol yn ogystal ag ardaloedd gwledig. Bydd Post Office Ltd yn gwneud arbedion sylweddol pellach drwy leihau costau canolog a chostau cyffredinol. Ar yr un pryd, bydd yn darparu gwasanaethau mewn modd mwy cost-effeithiol, ac yn cau hyd at 2,500 o swyddfeydd post yn unol â chynllun strategol. Mae hyn yn golygu y bydd y taliadau rhwydwaith cymdeithasol

arfaethedig yn ddigon i gynnal y rhwydwaith anfasnachol cyfan heb gael effaith niweidiol ar y gefnogaeth sydd ar gael ar gyfer rhan wledig y rhwydwaith.

Mae'r Llywodraeth yn nodi'r ceisiadau am ddadansoddiad o'r noddiant ariannol o £1.7 biliwn. Mae hyd at £750 miliwn yn cael eu neilltuo ar gyfer y Taliad Rhwydwaith Cymdeithasol tan 2010-11. Ni fydd y Taliad Rhwydwaith Cymdeithasol yn cael ei ddefnyddio i ariannu iawndal i is-bostfeistri sy'n ymadael â'r busnes. Darperir ar gyfer y costau hynny ar wahân, ynghyd ag ariannu colledion parhaus. Ni fydd dadansoddiad manylach ar gael nes bod Post Office Ltd wedi datblygu ei gynigion manwl ar gyfer ail-lunio'r rhwydwaith ar lefel leol.

Mae Post Office Ltd yn bwriadu sefydlu cronfa fechan er mwyn hybu buddsoddi newydd mewn cyfleusterau Craidd ac Allgymorth, ac mewn canghennau sy'n wynebu problemau mynediad a gallu o ganlyniad i ail-lunio'r rhwydwaith.

## Achosion anarfaethedig o gau

Holodd rhai atebwyr ynglŷn ag effaith achosion anarfaethedig pellach o gau swyddfeydd post, yn ychwanegol at y 2,500 o swyddfeydd post sydd i'w cau gan greu cyfleusterau eraill i wneud iawn am hynny. Galwasant ar y Llywodraeth i gadw at y polisi o beidio â chau swyddfeydd post lle'r oedd modd osgoi hynny, er mwyn sicrhau na fyddai nifer sylweddol o achosion anarfaethedig o gau, gan y byddai achosion o'r fath yn creu bylchau yn y rhwydwaith.

Mae'r Llywodraeth yn derbyn y bydd rhywfaint o golledion naturiol yn parhau, yn ychwanegol at y swyddfeydd post a fydd yn cael eu cau gan greu cyfleusterau eraill i wneud iawn am hynny dan y rhaglen. Mae hyn yn anochel (er enghraifft os bydd is-bostfeistr yn penderfynu ymddeol neu symud i rywle arall, neu hyd yn oed os yw ei fusnes cysylltiedig yn profi'n amhroffidiol), ac ni all Post Office Ltd na'r Llywodraeth rwystro hynny. Fodd bynnag, bydd meini prawf mynediad y Llywodraeth yn sefydlu lefel sylfaenol o ddarpariaeth y bydd yn ofynnol ar Post Office Ltd i barhau i'w sicrhau. Bydd achosion anarfaethedig o gau yn cael eu gwrthbwyso drwy agor swyddfeydd newydd i gymryd eu lle dan amgylchiadau lle na fyddai'r meini prawf hynny'n cael eu bodloni. Nid yw'n bosibl cynnal rhwydwaith digyfnewid, gan nad oes modd canfod adeiladau neu is-bostfeistri newydd ym mhob achos. Ond bydd y meini prawf mynediad yn disodli'r polisi o beidio â chau lle mae modd osgoi hynny, ac yn sicrhau bod rhwydwaith cenedlaethol o swyddfeydd post yn cael ei gynnal.

## Rôl gymdeithasol

Pwysleisiodd llawer o atebwyr rôl gymdeithasol y rhwydwaith swyddfeydd post, a phwysigrwydd rhoi pwyslais dyladwy ar hyn, ochr yn ochr ag ystyriaethau economaidd.

Mae'r Llywodraeth yn cytuno. Heb gefnogaeth barhaus y cyhoedd, byddai rhwydwaith cwbl fasnachol yn cynnwys llai na 4,000 o ganghennau; byddai hyn yn golygu cau dros 10,000 o swyddfeydd post. Ni ellir caniatáu i hynny ddigwydd. Dyna pam y mae'r Llywodraeth am ddarparu cefnogaeth ariannol barhaus dra sylweddol er mwyn cynnal rhwydwaith sy'n gwirioneddol gwmpasu Prydain gyfan. Er mwyn sicrhau'r cwmpasiad cenedlaethol hwnnw, mae'r Llywodraeth yn sefydlu meini prawf mynediad manwl hefyd, ynghyd â meini prawf atodol sy'n canolbwyntio ar sicrhau darpariaeth briodol mewn ardaloedd lle ceir yr angen cymdeithasol mwyaf.

## Gwasanaethau llywodraeth, awdurdodau lleol a bancio

Awgrymodd llawer o atebwyr y dylai llywodraeth ganolog a lleol ymchwilio'n fanwl i'r posibiladau o ddargadw gwasanaethau, neu gynnig rhagor ohonynt, drwy swyddfeydd post, er mwyn cryfhau hyfywdra'r rhwydwaith a swyddfeydd unigol fel ei gilydd. Cafwyd galwadau hefyd ar i'r holl fanciau adwerthol drefnu bod modd cael at eu cyfrifon cyfredol mewn swyddfeydd post. Ystyrid hefyd y gallai integreiddio gwasanaethau swyddfa bost gyda'r ddarpariaeth o wasanaethau gwledig eraill ddarparu synergedd posibl, a allai helpu i greu canolbwyntiau gwasanaeth cymunedol wedi eu haddasu i amgylchiadau lleol. Ar y llaw arall, credai un atebydd fod cymhorthdal pellach i swyddfeydd post yn creu perygl o ystumio'r farchnad, a'i fod yn annheg â darparwyr eraill yr un gwasanaethau, megis talu biliau.

Mae'r Llywodraeth yn nodi'r awgrym y dylid sianelu rhagor o wasanaethau cyhoeddus drwy'r rhwydwaith swyddfeydd post, ond mae'n ymwrthod â'r syniad y dylid ei gwneud yn ofynnol ar adrannau'r Llywodraeth ac awdurdodau lleol i wneud hyn ar draul dewis i'r cwsmer. Mae pobl yn dymuno dewis o amrywiaeth o ddulliau posibl o dalu eu biliau neu dreth car, er enghraifft. Yn gynyddol, mae'n well gan bobl ddefnyddio mynediad drwy deleffon neu'r rhyngrwyd i wasanaethau'r Llywodraeth, ac maent yn cael y rhain yn fwy cyfleus. Mae gan bobl ddewisiadau, ac mae ganddynt yr hawl i'w hymarfer.

Yn yr un modd, ni all adrannau'r Llywodraeth ddewis yn syml i ddyfarnu contractau Post Office Ltd ar gyfer darparu rhai gwasanaethau penodol. Mae rheolau'r UE, ac arfer gorau o ran sicrhau gwerth am arian, yn gwneud caffael tryloyw a chystadleuaeth agored yn ofynnol. Mae llawer o fusnesau preifat eraill yn darparu gwasanaethau tebyg, onid unfath â'r rhai sy'n cael eu darparu mewn swyddfa bost; a gallai eu cau allan o'r cyfle i ymgeisio am gytundebau darpariaeth fod yn anghyfreithlon dan gyfraith gaffael yr UE. Hefyd, nid yw ond yn iawn ei bod yn ofynnol ar adrannau'r Llywodraeth ac awdurdodau lleol i ganfod y dewisiadau gwerth gorau ar gyfer darparu eu gwasanaethau mewn modd sy'n sicrhau'r defnydd gorau o arian trethdalwyr.

Mae'n bwysig, fodd bynnag, fod Post Office Ltd yn cael pob cyfle i fynd ar drywydd busnes y Llywodraeth. Bydd newid y rhwydwaith yn gosod Post Office Ltd mewn sefyllfa lawer cryfach i gystadlu am fusnes yn y dyfodol, ac i ddatblygu ceisiadau cryf ac arloesol am gael darparu gwasanaethau llywodraeth a gwasanaethau eraill. Mae Post Office Ltd yn cynnal cysylltau a chysylltiad rheolaidd gydag adrannau'r Llywodraeth, er mwyn sicrhau eu bod yn effro i bob cyfle busnes i'r dyfodol.

Ar hyn o bryd mae holl brif fanciau'r DU, ynghyd â chymdeithas adeiladu Nationwide, yn darparu o leiaf un cyfrif banc sylfaenol y gellir cael ato mewn swyddfa bost. Mae rhai hefyd yn dewis ei gwneud yn bosibl i gwsmeriaid gael at eu cyfrifon cyfredol ar draws cownter swyddfa bost. Fodd bynnag, mae rhai'n dewis peidio â gwneud hyn am resymau masnachol, sy'n gallu cynnwys pryderon ynglŷn â chost neu'r posibilrwydd o golli cwsmeriaid i gystadleuydd. Yn y pen draw mae'r rhain yn benderfyniadau masnachol i'r banciau, ac ni all y Llywodraeth orfodi'r banciau i drefnu bod eu cyfrifon ar gael os ydynt wedi gwneud penderfyniadau masnachol i beidio â gwneud hynny. Mae trafodaethau rhwng y banciau a Post Office Ltd ar y mater hwn yn parhau; ond rhaid i fynediad drwy'r rhwydwaith swyddfeydd post i wasanaethau bancio adwerthol yr holl

fanciau Stryd Fawr, waeth pa mor fuddiol, fod yn benderfyniad masnachol i'r banciau unigol a Post Office Ltd ei wneud.

Byddwn yn cymhell Post Office Ltd i ymchwilio ymhellach i'r posibiladau o ddarpariaeth fwy cost-effeithiol drwy gydleoli gyda gwasanaethau cymunedol eraill pan fydd cyfleoedd o'r fath yn eu cynnig eu hunain. Mae'r treialon peilot cyfredol lle mae lleoliad gwasanaeth yn cael ei rannu mewn adeilad swyddfa bost yn cynnwys y treialon ar y cyd â'r heddlu yn Swyddau Norfolk, Fife a Phowys.

Byddwn hefyd yn ymchwilio i sut y gallai awdurdodau lleol sianelu rhagor o fusnes drwy swyddfeydd post er mwyn cryfhau eu hyfywdra, ac yn ymchwilio ymhellach i'r posibiladau o gydleoli gwasanaethau swyddfa bost a chyfleusterau awdurdod lleol, fel y gwnaed yn llwyddiannus yn Reading.

## Strategaeth cau

Mynegodd rhai atebwyr bryder ynglŷn â'r ffaith fod rhagor o swyddfeydd post mewn ardaloedd trefol i gael eu cau mor fuan ar ôl y rhaglen ailddyfeisio trefol, a phwysodd llawer o atebwyr am i Post Office Ltd, wrth ddethol swyddfeydd i'w cau, gydbwysu hyfywdra economaidd, defnydd gan gwsmeriaid, a'r rôl gymdeithasol, yn erbyn hoffterau is-bostfeistri.

Er i ailddyfeisio trefol fynd rywfaint o'r ffordd tuag at alinio swyddfeydd post trefol â nifer y defnyddwyr, erys rhai ardaloedd trefol lle mae sawl swyddfa bost yn darparu gwasanaeth yn yr un dalgylch. Y mae'n iawn i'r lefel hon o ddarpariaeth gael ei hail-archwilio, er mwyn galluogi Post Office Ltd i sicrhau'r ddarpariaeth a'r effeithlonrwydd gorau. Bydd y meini prawf mynediad sy'n cael eu cynnig ar gyfer ardaloedd trefol ac ardaloedd trefol difreintiedig, fodd bynnag, yn sicrhau bod darpariaeth briodol yn cael ei chynnal mewn ardaloedd trefol.

Y strategaeth yw cael y gwasanaeth iawn yn yr ardal iawn er mwyn bodloni'r meini prawf mynediad a sicrhau darpariaeth ledled Prydain. Mae ar Post Office Ltd angen gallu cau swyddfeydd yn orfodol er mwyn sicrhau bod yr amcanion hyn yn cael eu cyflawni. Ni fydd penderfyniadau ynglŷn â chau'n cael eu gwneud yn ôl hoffterau is-bostfeistri, er y ceir achosion lle mae cyd-daro strategol rhwng cynnig i gau a dymuniad yr is-bostfeistr i adael y rhwydwaith. Mae Post Office Ltd a Ffederasiwn Cenedlaethol yr Is-bostfeistri wedi arwyddo cytundeb ar delerau a threfniadau ar gyfer talu iawndal.

## Swyddfeydd y Goron

Er y cafwyd cefnogaeth i strategaeth Post Office Ltd ar gyfer moderneiddio a gwella swyddfeydd post y Goron, cafwyd peth gwrthwynebiad i fasnachfreinio pellach. Safbwynt arall oedd y dylid gwario llai ar swyddfeydd y Goron er mwyn gwario mwy ar gynnal y rhwydwaith gwledig a sicrhau parhad swyddfeydd post mewn ardaloedd lle nad oes dewis arall, yn hytrach na chefnogi rhwydwaith y Goron mewn ardaloedd lle ceir crynhoad o fusnesau sy'n darparu gwasanaethau tebyg. Gofynnodd rhai atebwyr a ellid defnyddio cefnogaeth ariannol y Llywodraeth i gefnogi rhwydwaith y Goron, a mynegwyd pryder ynglŷn ag ystumio cystadleuaeth.

Mae rhwydwaith y Goron yn gwneud colledion mawr; rhagwelir y bydd y golled eleni'n £70 miliwn. Gweledigaeth Post Office Ltd ar gyfer swyddfeydd y Goron

Yw creu cadwyn genedlaethol lai o swyddfeydd 'blaenllaw' sy'n arloesi gyda thechnoleg newydd megis sianelau hunanwasanaeth. Mae Post Office Ltd o'r farn fod dargadw canghennau'r Goron yn hanfodol ar gyfer ehangiad y meysydd busnes newydd, o gofio bod y canghennau hyn yn gyfrifol am dros 60% o werthiant cynhyrchion gwasanaethau ariannol newydd. Ni ellir anwybyddu problemau'r rhan hon o'r rhwydwaith. Wrth ddatblygu strategaeth gyffredinol ar gyfer rhwydwaith cenedlaethol hyfyw, mae ar Post Office Ltd angen moderneiddio rhwydwaith y Goron a'i adfer i broffidioldeb drwy leihau ei sylfaen gostau a chreu refeniw ychwanegol drwy sicrhau twf yn y gwasanaethau ariannol y mae'n eu cynnig. Drwy fynd ar drywydd cysylltiadau gyda phartneriaid sefydledig ac uchel eu parch yn y maes adwerthu, megis y cytundeb masnachol a gyhoeddwyd yn ddiweddar gyda WH Smith, gall Post Office Ltd dorri ar golledion annerbyniol, a chynnal onid gwella'r gwasanaeth i gwsmeriaid. Nid yw trawsnewid un o swyddfeydd y Goron yn swyddfa fasnachfaint yn lleihau nifer y swyddfeydd post — ond mae'n ddull gwahanol o ddarparu'r un gwasanaethau.

### Rôl awdurdodau lleol

Cafwyd croeso cyffredinol i'r cynnig i ymchwilio i ba rôl y gallai awdurdodau lleol ei chwarae, yn y dyfodol, mewn penderfyniadau a fyddai'n dylanwadu ar ffurf y rhwydwaith a'r ddarpariaeth o wasanaethau ar ôl 2011.

Mae'r Llywodraeth yn gweithio gyda'r sefydliadau a'r gweinyddiaethau perthnasol gyda golwg ar benderfynu, yn y tymor hirach, i ba raddau y gellir datganoli ariannu, a phenderfyniadau ar y ddarpariaeth o wasanaethau lleol, i'r lefel lleol. Bydd cynnwys yr awdurdodau lleol yn y rhaglen newidiadau i'r rhwydwaith sydd ar ddod yn darparu cyfle i ymchwilio i sut y gall cynghorau lleol weithio gyda Post Office Ltd i helpu i liniaru bylchau posibl yn y gwasanaeth, ac i ymchwilio hefyd i'r rôl bosibl y gallai awdurdodau lleol ei chwarae mewn penderfyniadau ariannu i'r dyfodol.

### Ffactorau cymdeithasol ac economaidd

Yr oedd nifer o atebwyr yn amheus a oedd cost gymdeithasol cau swyddfeydd post wedi ei ffactorio'n llawn i strategaeth y Llywodraeth; a gwnaethant sylwadau ar yr angen i wneud iawn am dynnu gwasanaethau'r Llywodraeth a gwasanaethau eraill yn ôl drwy gynyddu'r cymhorthdal i'r rhwydwaith swyddfeydd post. Yr oedd llawer o atebwyr yn amau hefyd a oedd cynigion y Llywodraeth yn adlewyrchiad digonol o ffactorau megis yr effaith ar fusnesau adwerthu bychain (gan gynnwys y siop olaf yn y pentref), argaeledd cludiant cyhoeddus, effaith amgylcheddol cynnydd yn y defnydd o geir, dulliau amgen o gael at wasanaethau allweddol, demograffeg leol (yn enwedig yr effaith ar bobl hŷn), a'r effaith ar economïau lleol. Gwnaeth llawer o atebwyr sylwadau ar bwysigrwydd cael at wasanaethau swyddfa bost i fusnesau bychain a gweithwyr gartref, elfen sylweddol o'r economi lleol sydd ar dwf, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig; ac yr oedd llawer yn pryderu y byddai colli'r swyddfa bost leol yn deillio ar amser a chostau teithio ychwanegol ac ar gwtogi ar oriau agor/gwaith.

Dywedodd y ddogfen ymgynghori y bydd cau swyddfeydd post yn effeithio'n bennaf ar gyfuniad o ganghennau mewn ardaloedd lle mae gorddarpariaeth, ac ar y canghennau sy'n cael eu defnyddio leiaf. Bydd Post Office Ltd yn cael y dasg o gymryd trosolwg strategol ar y ddarpariaeth o wasanaethau, er mwyn sicrhau bod pobl mewn ardaloedd o orddarpariaeth yn gallu canfod cangen arall gerllaw,

ac y bydd y mwyafrif llethol yn parhau i fod o fewn taith gerdded i'w swyddfa bost agosaf. Yn achos y swyddfeydd sy'n cael eu defnyddio leiaf, bydd nifer y bobl yr effeithir arnynt yn isel, oherwydd natur y swyddfeydd. Bydd cyflwyno meini prawf mynediad newydd yn lleihau'r effaith drwy sicrhau bod y rhwydwaith yn parhau'n hawdd cael ato ledled y DU — ac y ceir llawer mwy o ddarpariaeth nag a wneir gan unrhyw adwerthwr neu ddarparwr gwasanaethau ariannol, neu yn wir unrhyw ddarparwr arall o wasanaethau cyhoeddus.

Mae nifer o astudiaethau wedi ceisio gosod pris ar werth cymdeithasol ac economaidd swyddfa bost; ond bydd hwn yn amrywio o leoliad i leoliad, gan fod asesiad yn dra dibynnol ar ddemograffi'r ardal. Mae rhai astudiaethau'n dangos hefyd fod pobl yn ymaddasu'n gyflym i ffyrdd newydd o gael at wasanaethau swyddfa bost. Ond bydd dargadw rhwydwaith cenedlaethol mawr, a darpariaeth gynhwysfawr barhaus, yn sicrhau y bydd llawer o bobl yn dioddef fawr ddim effaith yn sgil y newidiadau.

## Meini prawf mynediad

**C3. A oes gennych sylwadau ar y meini prawf mynediad cenedlaethol arfaethedig?**

**C4. A oes gennych sylwadau penodol ar y meini prawf mynediad a gynigir ar gyfer ardaloedd trefol a gwledig difreintiedig?**

Yr oedd y ddogfen ymgynghori'n cynnig fframwaith o feini prawf mynediad ar gyfer sefydlu lefel sylfaenol o ddarpariaeth ledled Prydain ac mewn ardaloedd o angen arbennig.

Aeth mwyafrif mawr o'r ymatebion i'r afael â mater meini prawf mynediad, ac yr oedd llawer o'r ymatebion i'r ddau gwestiwn hyn yn gorgyffwrdd. Felly, mae'r ymatebion i'r ddau gwestiwn yn cael eu trin gyda'i gilydd isod, ac mae ymateb y Llywodraeth yn eu trin yn yr un modd.

Croesawyd cynigion y Llywodraeth i gyflwyno meini prawf mynediad gan lawer o atebwyr, fel cam i'r cyfeiriad cywir.

Gofynnodd nifer o bartïon am eglurhad pellach ynglŷn â sut y byddai'r meini prawf mynediad yn cael eu cymhwyso, ac am eglurhad o'r diffiniadau o ardal drefol/wledig at ddibenion meini prawf mynediad. Yr oedd rhai'n amau a oedd y meini prawf arfaethedig yn rhoi digon o amddiffyniad ar y lefel leol, a dadleuodd rhai y dylid gweithredu meini prawf mynediad penodol ar lefel wladol (Lloegr, Gogledd Iwerddon, yr Alban a Chymru) neu ar lefel fwy lleol.

Bwriad y Llywodraeth yw sefydlu set gynhwysfawr o feini prawf sy'n weithredol ar y lefel genedlaethol, er mwyn sicrhau bod mynediad i wasanaethau swyddfa bost yn parhau i fod ar gael ledled Prydain. Bydd pedwar o'r meini prawf yn weithredol ar y lefel genedlaethol:

- Ar lefel genedlaethol, 99% o boblogaeth y DU i fod o fewn 3 milltir i'w swyddfa bost agosaf, a 90% o'r boblogaeth i fod o fewn 1 filltir iddi.
- 99% o'r boblogaeth gyfan mewn ardaloedd trefol difreintiedig ledled y DU i fod o fewn 1 filltir i'r swyddfa bost agosaf.

- 95% o'r boblogaeth drefol gyfan ledled y DU i fod o fewn 1 filltir i'w swyddfa bost agosaf.
- 95% o'r boblogaeth wledig gyfan ledled y DU i fod o fewn 3 milltir i'w swyddfa bost agosaf.

Yn ychwanegol at hynny, bydd y maen prawf canlynol yn weithredol ar lefel pob ardal cod post unigol, gan sefydlu lefel sylfaenol o ddarpariaeth ar lefel leol iawn.

- 95% o boblogaeth yr ardal cod post i fod o fewn 6 milltir i'w swyddfa bost agosaf.

Mae'r meini prawf mynediad yn disodli'r gofyniad a oedd yn cael ei osod ar Post Office Ltd i rwystro cau swyddfeydd gwledig os oedd modd osgoi hynny. Ond mae'n bwysig nodi bod y meini prawf hyn yn disgrifio'r lefelau sylfaenol o hygyrchedd, ac y bydd y ddarpariaeth yn fwy mewn llawer, onid y mwyafrif, o achosion.

Pwyslais ein polisi yw cynnal rhwydwaith cenedlaethol sy'n cwmpasu Prydain gyfan. Rydym yn ymwrthod, felly, â'r cynnig y dylid gweithredu'r meini prawf uchod ar lefel y gwledydd unigol neu ar lefel ardaloedd lleol llai.

I'r rhan fwyaf o bobl, bydd y gallu i gael at swyddfa bost yn cael ei bennu gan y meini prawf cenedlaethol. Fodd bynnag, mewn ardaloedd mwy pellennig, lle mae'r boblogaeth yn tueddu i fod yn fwy gwasgaredig, gallai fod yn wir nad yw'r meini prawf cenedlaethol yn darparu ar eu cyfer — ystyriaeth a nodwyd gan lawer o atebwyr. Bydd cyflwyno'r maen prawf ynglŷn ag ardal cod post yn mynd i'r afael â'r mater hwn, ac yn darparu amddiffyniad ar gyfer y cymunedau hynny.

Y mae rhyw 2,800 o ardaloedd cod post (hanner cyntaf y cod post e.e. GU51) yn y DU. Rydym o'r farn fod gofyniad i sicrhau bod 95% o'r boblogaeth ym mhob ardal cod post o fewn 6 milltir i'w swyddfa bost agosaf yn darparu amddiffyniad ar lefel leol. Yn y ddogfen ymgynghori, ein cynnig oedd eithrio 38 o ardaloedd cod post sydd ddim yn bodloni'r maen prawf ar hyn o bryd. Fodd bynnag, rydym wedi myfyrio ar y sylwadau a dderbyniwyd, ac wedi dod i'r casgliad na ddylai unrhyw ardal cod post gael ei hesgusodi rhag cyrraedd y safon hon. Wrth weithredu cynlluniau ardal leol, yn dilyn ymgynghoriad lleol, bydd gofyn i Post Office Ltd sicrhau bod pob ardal cod post yn ddieithriad yn gwneud y ddarpariaeth honno. Ni fydd swyddfeydd post yn y 38 ardal cod post sy'n methu â bodloni'r maen prawf ar hyn o bryd yn cael eu cau'n orfodol yn ystod y rhaglen drawsnewid, a bydd Post Office Ltd yn ymorol am lenwi'r bylchau yn y ddarpariaeth wrth iddynt ddatblygu cynlluniau ardal leol, fel bod gofyn i bob ardal cod post yn y cynllun ardal leol sicrhau bod 95% o'r boblogaeth o fewn 6 milltir i'r swyddfa bost agosaf erbyn diwedd pob cynllun gweithrediad. Gall hyn olygu y bydd gofyn agor rhai swyddfeydd post newydd.

Yr oedd llawer o atebwyr o'r farn fod y maen prawf ynglŷn ag ardaloedd trefol difreintiedig yn lleihau'r amddiffyniad presennol; yr oeddynt yn cymryd yn ganiataol bod y canghennau hynny sydd wedi eu lleoli mewn ardaloedd trefol difreintiedig lle mae'r gangen agosaf yn fwy na hanner milltir i ffwrdd wedi eu cylchamddiffyn rhag cael eu cau. Cafwyd llawer o alwadau hefyd am ymestyn y maen prawf i gwmpasu'r 15% o ardaloedd sy'n fwyaf difreintiedig, ac am ddarpariaeth benodol ar gyfer ardaloedd gwledig difreintiedig.

Ar hyn o bryd ni ddiogelir mynediad i wasanaethau swyddfa bost mewn ardaloedd trefol difreintiedig. Nid oedd yr amddiffyniad 'cylchamddiffyn' hanner milltir ond yn weithredol at ddibenion y rhaglen ailddyfeisio trefol, a than ddiwedd y rhaglen honno; ac yr oedd yn canolbwyntio ar ddargadw'r swyddfa bost benodol yn hytrach na chymryd i ystyriaeth beth oedd y gangen agosaf at gwsmeriaid. Mae ein cynnig yn canolbwyntio'r ddarpariaeth ar hygyrchedd, yn hytrach nag ar ddiogelu swyddfeydd post oherwydd y pellter i'r swyddfa nesaf yn unig, waeth faint o bobl y maent yn eu gwasanaethu mewn gwirionedd.

Mae cyflwyno'r amddiffyniad penodol ar gyfer ardaloedd trefol difreintiedig, yn ychwanegol at y meini prawf cenedlaethol, yn diogelu'r cymunedau bregus hyn ymhellach. Cynigiasom y byddai'r amddiffyniad yn weithredol mewn perthynas â'r 10% o ardaloedd trefol sy'n fwyaf difreintiedig; ond yng ngolau ymatebion i'r ymgynghoriad, yr ydym wedi penderfynu ymestyn hyn er mwyn sicrhau bod y 15% o ardaloedd trefol sy'n fwyaf difreintiedig yn cael eu diogelu.

Rydym yn deall y ceisiadau am eglurhad pellach o'r diffiniadau mewn perthynas â'r meini prawf mynediad. Rydym wedi dewis parhau i ddefnyddio'r rhaniad trefol/gwledig a oedd yn weithredol mewn perthynas â'r rhaglen ailddyfeisio trefol. Y diffiniadau yw:

Trefol — cymuned sy'n cynnwys 10,000 neu ragor o drigolion mewn ardal adeiledig ddi-dor.

Gwledig — cymuned nad yw'n cael ei chwmpasu gan y diffiniad o ardal 'drefol' uchod.

Trefol Difreintiedig — y rhannau trefol mwyaf difreintiedig o'r DU. Er mwyn sicrhau cydbwysedd teg rhwng gwledydd y DU, bydd ardaloedd difreintiedig trefol yn cael eu diffinio drwy gyfeirio at y 15% mwyaf difreintiedig ymysg yr Ardaloedd Cynnyrch Ehangach yn Lloegr, 15% o'r Parthau Data yn yr Alban, a 30% o'r Ardaloedd Cynnyrch Ehangach yng Nghymru a Gogledd Iwerddon. Mae hyn yn cymryd i ystyriaeth ymdaeniad cyfraneddol ardaloedd difreintiedig ar draws y DU<sup>1</sup>.

<sup>1</sup> Mae pob cenedl yn cynhyrchu Mynegeion Amddifadedd Lluosog ar wahân. Mae hyn yn golygu nad oes modd adnabod yn benodol y 15% o ardaloedd sy'n fwyaf difreintiedig ar draws y DU, ar sail y data presennol. Ni fyddai cymhwysiad cynhwysfawr o 15% ar draws pob cenedl yn deg nac yn adlewyrchu angen cymharol pob gwlad (gan y gallai fod mwy o angen mewn ardal drefol y tu allan i'r 15% o ardaloedd mwyaf difreintiedig mewn un wlad nag mewn ardal a oedd ymysg y 15% o ardaloedd mwyaf difreintiedig mewn gwlad arall). Rydym wedi adeiladu ar y dull a ddatblygwyd ar gyfer gweithredu rhyddhad rhag treth stamp, ac wedi ceisio cymhwyso'r un amddiffyniad i bob cenedl â'r un a geir yn y rhanbarth o Loegr sy'n fwyaf tebyg iddi (ar sail dangosyddion economaidd-gymdeithasol priodol). O ganlyniad, bydd 15% o ardaloedd trefol yn Lloegr a'r Alban, a 30% yng Nghymru a Gogledd Iwerddon, yn cael eu diffinio fel rhai 'trefol difreintiedig'.

Croesawodd llawer o atebwyr y cynnig i addasu meini prawf mynediad er mwyn cymryd i ystyriaeth gyfyngiadau daearyddol sylweddol megis afonydd, mynyddoedd a chymoedd, traffyrdd a mordeithiau i ynnysoedd, a chyfyngiadau ymarferol eraill megis rheilffyrdd, gyda'r bwriad o osgoi caledi gormodol. Derbyniasom hefyd llawer o ymatebion a oedd yn gofyn am i ffactorau eraill gael eu hychwanegu, gan gynnwys argaeledd cludiant cyhoeddus, pellterau ac amseroedd teithio gwirioneddol ar hyd ffyrdd neu lwybrau teithio eraill a oedd yn hygyrch ar gerdded, a ffactorau economaidd-gymdeithasol eraill gan gynnwys yr effaith economaidd ehangach ar gymunedau. Yr oedd rhai atebwyr o'r farn y byddai'r pellter a gynigid yn y meini prawf yn feichus i llawer o gwsmeriaid pe baent yn gwneud dwy ran y daith ar gerdded. Pryder allweddol llawer o atebwyr oedd y rheidrwydd i feini prawf mynediad fod yn berthnasol i bobl ar y lefel leol, gydag amddiffyniadau priodol ar gyfer pobl fregus, a'r rheidrwydd i roi ystyriaeth gywir i ffactorau sy'n ymwneud â phobl, lleoedd, a'r ddarpariaeth o wasanaethau hanfodol. Crybwyllwyd hefyd yr angen i'r meini prawf fod yn ymatebol i dueddiadau poblogaeth i'r dyfodol, gan gyfeirio'n arbennig at ardaloedd lle'r oedd y boblogaeth yn tyfu.

**Rydym yn cydnabod grym y pwyntiau uchod; ac wrth gymhwyso'r meini prawf mynediad, bydd gofyn i Post Office Ltd gymryd i ystyriaeth rwystrau megis afonydd, mynyddoedd a chymoedd, traffyrdd a mordeithiau i ynnysoedd, er mwyn osgoi caledi gormodol. Bydd Post Office Ltd yn ystyried, yn ogystal, argaeledd cludiant cyhoeddus a dulliau eraill o gael at wasanaethau swyddfa bost, demograffeg leol, a'r effaith ar economïau lleol, wrth lunio cynlluniau ardal. Bydd Post Office Ltd yn dangos sut mae'r ffactorau hyn wedi eu hystyried wrth gwblhau eu cynlluniau, ym mhob dogfen ymgynghori leol.**

Galwodd llawer o atebwyr hefyd am gydraddoldeb triniaeth rhwng ardaloedd trefol a gwledig, a rhwng gwledydd y Deyrnas Unedig, ac am i'r cydraddoldeb hwnnw gael ei gynnal.

Rydym yn cytuno na ddylai unrhyw ran o'r rhwydwaith, nac unrhyw grŵp penodol o bobl, gael eu heffeithio'n sylweddol waeth gan gau swyddfeydd post, neu gan newidiadau eraill yn y ddarpariaeth o wasanaethau, nag unrhyw un arall. Rydym yn disgwyl felly y bydd Post Office Ltd yn cau niferoedd gweddol debyg o swyddfeydd post mewn ardaloedd gwledig ac ardaloedd trefol. Rydym hefyd yn disgwyl y bydd Post Office Ltd, wrth ddatblygu cynlluniau ardal manwl, yn adlewyrchu'r egwyddor na ddylai unrhyw wlad oddi mewn i'r Deyrnas Unedig, nac unrhyw grŵp o drigolion ar lefel y cynllun ardal, ddiodeff effeithiau sy'n sylweddol fwy niweidiol nag a ddiodeffir gan unrhyw wlad na grŵp arall.

## Sicrhau bod y meini prawf mynediad yn parhau i gael eu bodloni

Gofynnodd sawl atebydd sut y byddid yn monitro a gorfodi meini prawf mynediad er mwyn sicrhau bod bylchau dichonol yn y rhwydwaith, oherwydd achosion anarfaethedig o gau, yn cael eu hosgoi. Gofynnwyd sut y gallai monitro nodi newidiadau dros amser yn y rhestrau o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig, a gwirio cydymffurfriad mewn ardaloedd datblygu lle'r oedd twf sylweddol mewn poblogaeth yn digwydd.

Mae'r Llywodraeth o'r farn y dylai'r monitro allanol o'r gwaith o adolygu cydymffurfriad Post Office Ltd â'r meini prawf mynediad, a'r cyfrifoldeb am y

gwaith hwnnw, aros yn nwylo Postwatch (ac wedi hynny'r corff a fydd yn ei olynu – y Cyngor Defnyddwyr Cenedlaethol). Mae Postwatch eisoes yn cyfrannu at yr adroddiad blynyddol ar y rhwydwaith sy'n cael ei baratoi gan Postcomm, a buasai'r rôl o fonitro ac adolygu cydymffurfiaid â'r meini prawf mynediad bob hyn a hyn yn estyniad rhesymegol o'r gwaith hwnnw. Mae trafodaethau ar y gweill ynglŷn â natur y trefniadau ar gyfer monitro ac adolygu.

## Y berthynas â'r rhwymedigaeth i ddarparu gwasanaeth cyffredinol

Gofynnodd rhai atebwyr sut y byddai'r meini prawf mynediad yn cysylltu â rhwymedigaeth y Post Brenhinol i ddarparu gwasanaeth cyffredinol, ac a fyddai gwasanaethau Allgymorth yn rhan o'r gwasanaeth cyffredinol. Galwodd rhai hefyd am i'r meini prawf mynediad gynnwys rhwymedigaeth i ddarparu gwasanaeth sylfaenol ar gyfer pob swyddfa bost ac allfa Allgymorth, gan gynnwys isafswm oriau agor ac ystod sylfaenol o gynhyrchion.

Cyfrifoldeb Postcomm yw diffinio ac amddiffyn y gwasanaeth cyffredinol a sicrhau bod deiliaid trwyddedau'n cydymffurfio â'r rhwymedigaeth i ddarparu gwasanaeth cyffredinol. Mae'r Llywodraeth wedi sefydlu'r meini prawf mynediad hyn mewn cydnabyddiaeth o'r rôl gymdeithasol y mae'r rhwydwaith swyddfeydd post yn ei chwarae yn ychwanegol at ei rôl o ddarparu gwasanaethau post. Mae'r meini prawf hyn yn rhai ar wahân i rhwymedigaeth y Post Brenhinol i ddarparu gwasanaeth cyffredinol, ac maent yn annibynnol arni. Mater i Postcomm yw'r rhwymedigaeth honno. Cyfrifoldeb Postcomm, felly, yw cychwyn trafodaethau gyda Grŵp y Post Brenhinol er mwyn sicrhau nad yw'r rhwymedigaeth i ddarparu gwasanaeth cyffredinol yn cael ei pheryglu mewn unrhyw ffordd wrth i'r Post Brenhinol fodloni gofynion y meini prawf mynediad.

Mater i Post Office Ltd ac is-bostfeistri lleol yw'r gwasanaethau sy'n cael eu cynnig yn lleol a'r oriau agor, a byddant yn adlewyrchu'r anghenion a'r galw mewn cymunedau lleol. Nid yw'n briodol i'r Llywodraeth ymyrryd yn y broses hon na cheisio gosod safonau cenedlaethol ar gyfer materion y mae'n well eu hystyried ar lefel lleol.

Cafwyd galwadau hefyd am i ystyriaeth gael ei rhoi i'r posibiladau o gyfuno gwasanaethau swyddfa bost a gwasanaethau lleol eraill.

Rydym o'r farn mai pobl lleol sydd yn y sefyllfa orau i ddeall anghenion eu cymunedau, ond rydym hefyd yn cydnabod yr angen parhaus am ddarpariaeth genedlaethol. Byddwn yn adfyfrio ar brofiadau o weithredu lleol yng ngolau'r rhaglen newidiadau sydd ar ddod, a byddwn yn ystyried ymhellach pa rôl y gallai awdurdodau lleol ei chwarae yn y ddarpariaeth o wasanaethau i'r dyfodol.

## Y rhaglen cau swyddfeydd post a'r rhwydwaith i'r dyfodol

Mynegodd nifer o atebwyr amheumon ynglŷn â maint y rhaglen cau swyddfeydd post, ac ynglŷn â'r gallu i gadw at ofynion y meini prawf mynediad pe bai'r rhwydwaith yn dirywio dros amser nes ei fod yn llai o gryn dipyn na 12,000 o swyddfeydd, o ganlyniad i achosion pellach o gau swyddfeydd heb greu cyfleusterau eraill i wneud iawn am hynny.

Mae'r Llywodraeth o'r farn fod y meini prawf mynediad yn sicrhau lefelau rhesymol o ddarpariaeth ledled y wlad. Rydym wedi pennu uchafrif ar gyfer y swyddfeydd sydd i'w cau a'r cyfleusterau eraill sydd i'w creu i wneud iawn am hynny, gan ein bod yn credu y bydd rhwydwaith o tua 12,000 o ganghennau'n gynaliadwy. Fodd bynnag, mae'r farchnad y mae swyddfeydd post yn gweithredu ynddi wedi newid yn ddramatig yn y blynyddoedd diweddar, ac mae'n debygol o barhau i esblygu. Rhaid i Post Office Ltd allu datblygu ar y cyd â'r farchnad honno, a buasai'n anghywir i'r Llywodraeth fuddsoddi yn nyfodol y cwmni tra'n gosod cyfyngiadau mympwyol ac anhyblyg arno ar yr un pryd. Mae rhywfaint o achosion o gau yn anochel, ac mae'n debyg y bydd hyn bob amser yn wir.

Penderfynodd y Llywodraeth ar raglen o gau 2,500 o swyddfeydd yn y rhwydwaith ar ôl trafodaethau manwl gyda Post Office Ltd. Wrth ddod i'r penderfyniad hwn, roeddem yn ymwybodol o'r angen i gydbwysu anghenion y rhwydwaith yn erbyn y gost i'r trethdalwr o barhau i ariannu rhwydwaith cenedlaethol.

Fel y dywedwyd yn y ddogfen ymgynghori, ni all Post Office Ltd barhau i ddiodef y lefelau cyfredol o golledion. Mae'r rhwydwaith ar ei ffurf bresennol yn anghynaliadwy. Wrth fynd i'r afael â'r colledion hyn, bydd ar Post Office Ltd angen mabwysiadu ymagwedd strategol tuag at y rhwydwaith. Er bod arbedion effeithlonrwydd sylweddol wedi eu canfod, nid oes modd ymgodymu â maint y colledion yn iawn os bydd y rhwydwaith yn parhau i fod o'r maint presennol. Rhaid i'r Llywodraeth ddal y fantol rhwng sicrhau bod y rhwydwaith yn parhau'n hygyrch, yn enwedig i grwpiau bregus, a'r gost drom i'r trethdalwr. Rydym o'r farn fod rhaglen o gau 2,000 net o swyddfeydd post — gan y bydd 500 o fannau mynediad i Allgymorth yn cymryd lle rhai o'r swyddfeydd sy'n cael eu cau — yn ein galluogi i gyrraedd y cyrchnodau hynny.

## Ymgynghori lleol

Croesawodd atebwyr yr ymrwymiad i ymgynghoriad lleol ynglŷn â chynigion Post Office Ltd ar gyfer cau swyddfeydd post, ac ar gyfer newidiadau cysylltiedig yn y ddarpariaeth o wasanaethau, ac roeddynt yn awyddus i weld trafodaethau'n cael eu cynnal ar raddfa eang er mwyn sicrhau bod barn pobl leol yn cael ei chymryd i ystyriaeth cyn i unrhyw benderfyniadau terfynol gael eu gwneud gan Post Office Ltd. Yr oedd llawer o ymgynghoreion yn awyddus i weld mewnbwn buan gan awdurdodau lleol i ddatblygiad cynlluniau ardal leol. Gofynnodd llawer o atebwyr am ymestyn y cyfnod ymgynghori ynglŷn â chynlluniau ardal leol o 6 wythnos i 12. Yr oedd llawer o'r farn hefyd fod cyfnod o 18 mis ar gyfer y rhaglen gyfan yn heriol, ac y dylid ei ymestyn er mwyn darparu ar gyfer cymhlethdod y dasg o gydweddu cau swyddfeydd â threfniadau Allgymorth heb adael bylchau yn y gwasanaeth. Yr oedd barn gyferbyniol yn galw am gynnal ymgynghoriad lleol yn fuan er mwyn lleihau'r ansicrwydd parhaus i is-bostfeistri a chwsmeriaid.

Mae'r Llywodraeth yn nodi'r ymresymiau, ond mae wedi penderfynu cadarnhau ei benderfyniad y dylai'r cyfnod ymgynghori fod yn chwe wythnos. Mae hynny'n adlewyrchu'r dull a ddefnyddiwyd yn ystod camau olaf y rhaglen ailddyfeisio trefol. Bydd camau cyntaf y broses leol yn golygu cynnal trafodaethau manwl gyda Postwatch ar ddatblygu cynllun lleol, a hefyd yn golygu cynnwys awdurdodau lleol yn y broses cyn yr ymgynghori cyhoeddus ffurfiol. O'i gyfuno gyda'r chwe wythnos dilynol o ymgynghori cyhoeddus, fe fydd hyn, ym

marn y Llywodraeth, yn gwneud ymgynghoriadau digon cadarn yn bosibl ar lefel ardal leol. Rydym hefyd yn ymwybodol o'r ffaith fod y sefydliad sy'n cynrychioli is-bostfeistri wedi dadlau dros ymgynghoriad lleol buan, er mwyn lleihau ansicrwydd i is-bostfeistri a chwsmeriaid — ystyriaeth sy'n cael ei chydabod gan atebwyr eraill hefyd.

Amserlen Post Office Ltd ar gyfer datblygu cynlluniau ardal leol ynglŷn â newidiadau yn y ddarpariaeth o wasanaeth swyddfa bost, ac ymgynghori gyda'r cyhoedd yn eu cylch, yw cyfanswm o 90 diwrnod. Yn y cyfnod cyn yr ymgynghoriad cyhoeddus, bydd Postwatch yn darparu mewnbwn a chyngor ynglŷn â sut orau i fodloni'r meini prawf ardal tra'n cyflawni newidiadau i'r rhwydwaith sydd yn sensitif i anghenion cwsmeriaid, yn gweithredu gofynion polisi'r Llywodraeth, ac yn lleihau effeithiau niweidiol ar gwsmeriaid. Y nod yw cynorthwyo Post Office Ltd i ddatblygu cynllun ardal ymarferol ar gyfer rhwydwaith cynaliadwy, i'w gyflwyno ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus. Yn ystod ymgynghoriad cyhoeddus, bydd Postwatch yn sicrhau yr ymgynghorir â'r bobl gywir, bod y broses ymgynghori'n cael ei gweithredu'n gywir, a bod materion sy'n cael eu codi'n cael eu rhannu'n ddiymdroi â Post Office Ltd. Ar ôl ymgynghoriad cyhoeddus, bydd Postwatch yn ystyried yr ymatebion ac yn trafod y materion penodol a godwyd gyda Post Office Ltd. Mae yna ddarpariaeth hefyd i Postwatch enwebu canghennau unigol ar gyfer trafodaeth bellach a chyd- adolygiad gan Postwatch a Post Office Ltd cyn i benderfyniadau terfynol gael eu gwneud.

Mae Post Office Ltd o'r farn fod gweithredu'r newidiadau, gan gynnwys cyflwyno gwasanaethau Allgymorth newydd, o fewn 18 mis yn ymarferol bosibl. Mae'r Llywodraeth yn cadarnhau'r penderfyniad i anelu at gwblhau'r rhaglen o fewn y cyfnod hwnnw.

## **Darparu Gwasanaethau**

**C5. A oes gennych unrhyw awgrymiadau ynglŷn â sut y gellid darparu gwasanaethau'n well drwy'r rhwydwaith swyddfeydd post?**

### **Siopau un stop**

Galwodd llawer o atebwyr ar i'r Llywodraeth gydnabod a chefnogi swyddfeydd post lleol fel canolbwytiau neu 'byrth gwybodaeth' ar gyfer cynhyrchion a gwasanaethau llywodraeth wladol a lleol, gan alluogi i'r holl grwpiau bregus gael at wasanaethau hanfodol yn eu cymunedau.

Mae'r awgrym y dylai swyddfeydd post ddod yn 'siopau un stop' ar gyfer gwasanaethau'r Llywodraeth wedi ei leisio'n aml. Mae hwn yn faes y mae'r Llywodraeth wedi edrych arno o'r blaen. Yn 2002, darparasom £25 miliwn ar gyfer y cynllun peilot 'Your Guide', er mwyn rhoi ar brawf y syniad o swyddfeydd post fel siop un stop ar gyfer cynghorion ynglŷn â gwasanaethau'r Llywodraeth. Cyfyngedig fu effaith y cynllun peilot 'Your Guide'; gwnaeth 85% o gwsmeriaid y sylw y buasai'r wybodaeth a gawsant wedi bod ar gael iddynt mewn mannau eraill. Dangosodd y cynllun peilot y byddai costau darparu cynllun cenedlaethol a oedd yn cael ei ariannu'n gyhoeddus yn ormodol, ac na fyddai'n cynnig gwerth am arian, o ystyried maint y corff cwsmeriaid tebygol a fyddai'n ei ddefnyddio ac yn cael budd ohono.

## Ymestyn oriau agor

Credai nifer o atebwyr y dylid ystyried ymestyn oriau agor mewn swyddfeydd post er mwyn ehangu'r corff cwsmeriaid a chynyddu nifer yr ymwelwyr. Ystyriwyd bod peidio ag agor swyddfeydd llai ar ddyddiau Sadwrn yn rhwystr sylweddol yn erbyn cael at wasanaethau mewn ardaloedd o'r fath.

Yr oriau agor craidd ar gyfer swyddfa bost gangen amser llawn yw 09:00–17:30 ar ddyddiau gwaith ac 09:00–12:30 ar ddyddiau Sadwrn. Pan fo'r gangen yn gweithredu cownter adwerthu a swyddfa bost cyfunol, neu yn ôl cynllun agored, anogir adwerthwyr i gynnig gwasanaethau swyddfa bost am oriau estynedig, rhwng yr un amseroedd â'r gweithgarwch adwerthu cysylltiedig os yw hynny'n bosibl. Felly, gall is-bostfeistri agor y swyddfa bost am gyfnod hirach na'r oriau craidd os dewisant; ond byddai eu tâl yn seiliedig ar werth a maint y cynhyrchion neu wasanaethau swyddfa bost a werthid yn unig. Mewn rhai canghennau gwledig, nid yw lefel y busnes sy'n cael ei gynhyrchu'n talu costau gweithredu ar delerau amser llawn. Er mwyn cynnal gwasanaethau yn y lleoliad hwnnw, mae'r is-bostfeistr dan gcontract i agor am oriau cyfyngedig, ac mae'n derbyn tâl penodedig am nifer yr oriau dan delerau'r contract. Mewn canghennau sy'n cynnig agor cyfyngedig, gall yr is-bostfeistr ddal i ddewis cynnig gwasanaethau swyddfa bost am gyfnod hirach, ac mae llawer yn gwneud y dewis hwn gan eu bod yn bresennol beth bynnag.

## Agor y rhwydwaith i gyrff eraill sy'n darparu gwasanaethau post

Galwodd llawer o atebwyr am i'r rhwydwaith gael ei agor i gyrff eraill sy'n darparu gwasanaethau post, fel modd i gryfhau hyfywdra is-swyddfeydd post.

Mae'r Llywodraeth yn cydnabod buddion cystadleuaeth. Y mae'n amlwg ei bod yn gwbl hanfodol denu busnes ychwanegol i'r rhwydwaith. Yn syml iawn, mae'n anghywir awgrymu bod yna rwystrau yn erbyn cystadleuwyr. Agorasom y farchnad gwasanaethau post drwy Ddeddf Gwasanaethau Post 2000, a gall unrhyw gwmni post sy'n dymuno defnyddio'r rhwydwaith swyddfeydd post gysylltu â Post Office Ltd i drafod cytundeb masnachol. Os digwydd nad oes modd taro bargaen, gall y Rheolydd fynd ar drywydd y mater.

Ar hyn o bryd, nid yw Post Office Ltd ond yn darparu gwasanaethau post ar gyfer y Post Brenhinol, ac mae'r Post Brenhinol yn defnyddio'r rhwydwaith i gyflawni ei rwymedigaeth reoliadol i ddarparu mannau ar gyfer cael at wasanaethau. Mae'r cwmni'n effro i fuddion dichonol darparu gwasanaethau casglu pecynnau a pharseli mewn swyddfeydd post. Mae'r Post Brenhinol eisoes yn cynnig gwasanaeth casglu parseli drwy'r rhwydwaith. Mae ei wasanaeth 'Casglu Lleol' yn galluogi cwsmeriaid sy'n archebu nwyddau o gatalogau gwerthu-drwy'r-post, a gan gyflenwyr ar y Rhyngwrld sy'n defnyddio gwasanaethau'r Post Brenhinol (a 'Parcelforce Worldwide'), i drefnu bod nwyddau'n cael eu danfon i swyddfa bost os nad ydynt yn rhagweld y byddant gartref adeg y danfoniad. Neu fe all pobl ddewis trefnu bod eu pecyn Post Brenhinol neu barsel Parcelforce Worldwide yn cael ei ailgyfeirio i'w swyddfa bost leol i'w gasglu'n ddiweddarach, am dâl bychan.

Mae'n amlwg bod hon yn farchnad sydd wrthi'n datblygu, a byddwn yn parhau i annog Swyddfa'r Post i achub ar gyfleoedd lle maent yn bodoli. Mae Post Office Ltd yn barod i ddatblygu ei fusnes yn y maes hwn. A bod yn realistig, fodd bynnag, y mae'n annhebygol y byddai unrhyw fargen newydd a fyddai'n cael ei tharo'n fasnachol rhwng Post Office Ltd a chyrff eraill sy'n darparu gwasanaethau post yn creu meintiau sylweddol o fusnes a refeniw newydd i is-bostfeistri; mae'n debygol, yn hytrach, o gymryd lle busnes y Post Brenhinol.

## POca

At ei gilydd, croesawodd atebwyr benderfyniad y Llywodraeth i fwrw ymlaen â chyfrif newydd wedi i'r contract cyfredol ar gyfer cyfrif cerdyn Swyddfa'r Post (POca) ddod i ben yn 2010, o ystyried ei bwysigrwydd i bobl sy'n ariannol neu'n gymdeithasol fregus. Cynigiodd llawer eu barn hefyd ynglŷn â'r POca newydd; awgrymodd rhai y dylid cynyddu'r swyddogaethau y bydd yn eu cynnig, megis mynediad i beiriannau ATM, a chyfleuster debyd uniongyrchol gyda threfn syml ar gyfer gwneud cais. Awgrymwyd hefyd y dylai'r newid drosodd i'r POca newydd fod yn broses ddi-dor, heb yr angen am wneud ceisiadau newydd na newid y rhifau PIN presennol.

Rydym yn deall y pryderon ynglŷn â'r POca newydd sydd ar ddod, ac rydym yn nodi'r awgrymiadau a wnaed. Bydd y posibiladau ar gyfer cyflwyno swyddogaethau newydd yn y cynnyrch newydd yn cael eu hystyried fel rhan o'r broses dylunio cynnyrch a thendro; ond fel y nodwyd mewn ymateb i gwestiynau 1 a 2, rhaid i ni gydnabod mai un o elfennau deniadol y POca yw ei symlrwydd, ac nid ydym yn dymuno creu rhywbeth sy'n ddim mwy na chyfrif banc sylfaenol dan enw arall, pan fo llawer o gyfrifon o'r fath ar y farchnad eisoes, gan gynnwys llawer y gellir eu defnyddio yn Swyddfa'r Post. Rydym yn rhannu'r nod o sicrhau y bydd unrhyw newid o'r cynnyrch presennol i'r cynnyrch newydd yn un sydd mor hwylus i gwsmeriaid ag sy'n bosibl; bydd hyn, hefyd, yn cael ei gymryd i ystyriaeth fel rhan o'r broses dylunio cynnyrch a thendro.

## Undebau Credyd

Awgrymodd rhai atebwyr y byddai gweithio'n agos gydag Undebau Credyd yn helpu Swyddfa'r Post i ymestyn cynhwysiad ariannol ac yn creu busnes newydd.

Mae hyn yn fater masnachol i Post Office Ltd a'r Undebau Credyd. Cafwyd rhai trafodaethau rhwng Post Office Ltd a'r corff Undebau Credyd ar lefel genedlaethol, ynglŷn â'r posibiladau ar gyfer cydweithio, ac maent yn parhau i ymchwilio i'r holl ddewisiadau posibl.

## Gwasanaethau ariannol

Awgrymodd nifer o ymgynghoreion y dylai Post Office Ltd gyflwyno cymysgedd ehangach o wasanaethau ariannol, i siwtio cwsmeriaid ar incwm isel ac i helpu i gyflawni amcanion cynhwysiad cymdeithasol ac ariannol.

Bellach, swyddfeydd post yw'r prif gyflenwr gwasanaethau cyfnewid arian tramor. Mewn menter â Banc Iwerddon, mae Post Office Ltd, yn y blynyddoedd diweddar, wedi cyflwyno amrywiaeth ehangach o wasanaethau ariannol. Mae cynigion y Llywodraeth yn cefnogi ymdrechion Post Office Ltd i ddatblygu cynhyrchion newydd ym maes gwasanaethau ariannol, gan adeiladu ar eu llwyddiant presennol yn y maes hwn. Er enghraifft, mae'r cyfrif 'Instant Saver', a

gyflwynwyd yn Ebrill 2006, wedi profi'n boblogaidd iawn gyda chwsmeriaid, fel y mae yswiriant car ac yswiriant cartref. Mae'r partneriaid yn y fenter yn parhau i chwilio am gynhyrchion sy'n cydweddu'n dda ag anghenion cwsmeriaid Post Office Ltd. Ar y cyd â'r holl ddarparwyr gwasanaethau ariannol, mae Post Office Ltd yn rhwym gan y fframwaith rheoliadol sydd wedi ei sefydlu gan yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol. Nid yw is-bostfeistri'n gymwys i roi cyngor ariannol, ond fe allant weithredu fel cyflwynwyr i gynhyrchion ariannol sydd ar gael drwy swyddfa bost, ac maent yn gwneud hynny. Y tu hwnt i hyn, nid oes unrhyw rwystr rhag ehangu'r gwasanaethau ariannol sydd ar gael, a bydd y Llywodraeth yn parhau i annog Post Office Ltd i ymchwilio i bob cyfle posibl yn y farchnad hon.

## Danfon/casglu parseli

Yr oedd llawer o atebwyr yn dymuno i swyddfeydd post gynnig gwasanaeth man danfon a chasglu parseli.

Mae'r Post Brenhinol eisoes yn cynnig gwasanaeth casglu drwy'r rhwydwaith swyddfeydd post. Yn ychwanegol at hynny, mae'r gwasanaeth 'Casglu Lleol' yn galluogi cwsmeriaid sy'n archebu nwyddau o gatalogau detholedig ym maes gwerthu drwy'r post, a gan gyflenwyr ar y Rhynggrwyd sy'n defnyddio gwasanaethau'r Post Brenhinol (a Parcelforce Worldwide), i drefnu bod nwyddau'n cael eu danfon i swyddfa bost os nad ydynt yn rhagweld y byddant gartref adeg y danfoniad. Neu fe all pobl ddewis trefnu bod eu pecyn Post Brenhinol neu barsel Parcelforce Worldwide yn cael ei ailgyfeirio i'w swyddfa bost leol i'w gasglu'n ddiweddarach, am dâl bychan.

## Allgymorth

### C6. A oes gennych unrhyw sylwadau ar drefniadau Allgymorth fel dull o gynnal gwasanaeth i gymunedau bychain a phellennig?

Cytunodd llawer o atebwyr fod gan Allgymorth y potensial i ddarparu gwasanaeth mwy cost-effeithiol mewn ardaloedd lle mae nifer yr ymwelwyr yn isel, tra'n cynnig dewis sy'n fanteisiol i'r ddwy ochr pan fydd busnes bychan arall yn gweithredu fel y safle 'darparwr adnoddau' ar gyfer gwasanaethau swyddfa bost.

O'r pedwar math generig o Allgymorth, mae atebwyr at ei gilydd o'r farn mai'r gwasanaethau 'Partner' a 'Darparwr Adnoddau' yw'r dewis gorau yn lle cangen sefydlog. Er y gallai fod angen cymryd sensitifrwydd ynglŷn â lleoliad i ystyriaeth, mae llawer o leoliadau amrywiol megis tafarndai, gorsafoedd petrol, neuaddau pentref ac eglwysi'n cael eu defnyddio'n llwyddiannus eisoes.

Cafwyd croeso cyffredinol i'r syniad o swyddfa bost symudol fel dull o gynnal gwasanaeth, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig pellennig. Er bod y swyddfa bost symudol wedi derbyn sylw sylweddol, a rhyw gymaint o dderbyniad, mewn ardaloedd lle mae wedi ei threialu, mae'n amlwg ei bod yn syniad anghyfarwydd i fwyafrif yr atebwyr, sydd heb unrhyw brofiad personol o'i defnyddio. O ganlyniad, mynegwyd amrywiaeth eang o bryderon ynglŷn â materion logistaidd a gweithredol. Mynegodd llawer o atebwyr bryderon ynglŷn â'r posibilrwydd na fyddai swyddfa bost symudol ar gael yn y man lle'r oedd arnynt ei hangen, a chafwyd pryderon sylweddol hefyd ynglŷn â diogelwch.

Awgrymodd eraill mai doeth fyddai ymchwilio i weld a oedd posibiladau o gysylltu swyddfeidd post symudol â gwasanaethau eraill, fel sydd wedi digwydd yng Ngogledd Iwerddon, lle mae Post Office Ltd wedi gweithio gyda llyfrgell symudol yn Enniskillen mewn cynllun peilot.

Gwelwyd mai'r gwasanaeth 'Cartref' oedd y dewis a oedd yn cael ei ffafrio leiaf ar gyfer defnyddwyr unigol. Mewn perthynas â danfon gwasanaethau i'r drws, mynegodd llawer o atebwyr y farn mai hwn, er gwaethaf yr hwylustod ychwanegol, oedd y dewis lleiaf dymunol, oherwydd ei fod yn dileu'r rheswm dros adael y tŷ ac felly'n lleihau rhyngweithio cymdeithasol. Fodd bynnag, mae'n amlwg bod y gwasanaeth 'Cartref', mewn rhai achosion, wedi bod yn llwyddiant o ran cefnogi anghenion busnesau bach; er enghraifft, yr oedd is-swyddfeidd post Craidd yn Aldeburgh a Glastonbury wedi trefnu i bost gael ei gasglu'n uniongyrchol oddi wrth fusnesau bach a oedd wedi ymgofrestru â'r gwasanaeth.

Yn ein hymgyngoriad, cyflwynasom ein cynigion y dylai Post Office Ltd, ar sail treialon sydd wedi bod yn mynd rhagddynt ers 2005, gyflwyno rhyw 500 o wasanaethau Allgymorth er mwyn lliniaru canlyniadau cau rhai swyddfeidd post yn ôl y cynllun. Dywedasom y buasem yn darparu cefnogaeth i Post Office Ltd ar gyfer agor lleoliadau Allgymorth newydd, er mwyn darparu'r gallu i gael at wasanaethau mewn cymunedau bychain pellennig drwy adeiladu ar lwyddiant y treialon peilot, gan gynnwys swyddfeidd post symudol a swyddfeidd post sydd wedi eu lleoli mewn adeiladau eraill megis neuaddau pentref, canolfannau cymunedol neu dafarndai.

Rydym yn croesawu'r derbyniad cyffredinol, yn yr ymatebion, o'r angen i ymchwilio i dulliau mwy cost-ffeithiol o ddarparu gwasanaethau swyddfa bost, yn enwedig mewn ardaloedd pellennig. At ei gilydd, cytunodd atebwyr â'r egwyddor o gynyddu cwmplas y dull Craidd ac Allgymorth. Bu hefyd yn ddefnyddiol derbyn awgrymiadau manwl ynglŷn â sut y gellid gweithredu Allgymorth orau y tu hwnt i'r cynlluniau peilot presennol.

### Pryderon a rennir

Er bod llawer yn gefnogol i gyflwyniad dulliau newydd o ddarparu gwasanaethau, mynegwyd barn gyffredinol na ddylid lleihau argaeledd nac ystod y gwasanaethau sy'n cael eu darparu. Cafwyd pwyslais cryf hefyd ar gynnal trafodaethau buan gyda chymunedau er mwyn canfod beth yw eu gofynion o ran defnydd, ac ar gynnwys awdurdodau lleol a chynghorau plwyf yn yr ymgynghoriad lleol ynglŷn â newidiadau i'r gwasanaeth.

Gwnaeth llawer o atebwyr y sylw y byddai angen i Allgymorth, lle'r oedd yn cymryd lle cangen sefydlog, gael ei addasu'n ofalus i amgylchiadau lleol o ran math ac argaeledd y gwasanaeth a oedd yn cael ei gynig.

Rydym yn dymuno i Post Office Ltd gynnal deialog weithredol gydag awdurdodau a chymunedau lleol, drwy broses o ymgynghori lleol a chyn sefydlu gwasanaethau Allgymorth, fel bod modd eu haddasu i amgylchiadau unigol ac fel bod ganddynt y gobaith gorau o gael eu derbyn ac o lwyddo. Dylai'r cwmni gymryd patrymau lleol o ddefnydd i ystyriaeth, a sicrhau bod gwasanaethau Allgymorth yn ddigonol i ddiwallu lefel y galw. Lle bo'n bosibl, dylai'r cwmni sicrhau bod budd cymdeithasol Allgymorth yn cael ei fwyafu drwy drefnu bod ei argaeledd yn cyd-daro â gweithgareddau lleol. Dylai'r cwmni ymchwilio hefyd i

lefel y galw am drefnu bod gwasanaethau Allgymorth ar gael mewn ardaloedd lle nad oes gwasanaeth swyddfa bost sefydlog mwyach, neu lle na fu un erioed.

## Pryderon penodol

Yr oedd rhai ymgynghoreion yn amheugar ynglŷn â buddion a hyfywdra Allgymorth, ac yr oedd ganddynt bryderon na fyddai nifer arfaethedig y mannau Allgymorth yn gynaliadwy. Yr oedd dibynadwyedd yr offer cludadwy neu symudol ar gyfer rhai mathau o wasanaeth Allgymorth yn destun pryder i rai atebwyr hefyd.

Bydd angen i Post Office Ltd barhau i weithio gyda Ffederasiwn Cenedlaethol yr Is-bostfeistri er mwyn i is-bostfeistri mentergar sy'n fodlon cynnig gwasanaethau Allgymorth, ac sydd mewn sefyllfa dda i wneud hynny, gael eu symbylu i wneud hynny a chael cydnabyddiaeth ariannol gyfatebol amdano.

Mae cynlluniau peilot Post Office Ltd wedi dangos bod gwasanaethau Allgymorth yn gallu cynhyrchu arbedion sylweddol ar gostau, ac mae'r parhad yng ngweithrediad y cynlluniau peilot wedi galluogi'r cwmni i oresgyn y problemau cychwynnol ac i gyrraedd lefelau uchel iawn o ddibynadwyedd technegol a gwasanaeth, gan ddangos cynaliadwyedd y patrwm Allgymorth.

## Perchenogaeth gymunedol

**C7. A oes gennych unrhyw sylwadau ar ymarferoldeb perchenogaeth gymunedol ar rannau o'r rhwydwaith swyddfeydd post, a allai olygu trosglwyddo asedau i sefydliadau cymunedol, a/neu sefydlu cyrff cilyddol neu gydweithredol lleol i fod yn berchen ar wasanaethau lleol a'u rhedeg?**

Yr oedd llawer o atebwyr yn croesawu'n fras y posibiladau am fwy o gyfranogiad cymunedol; yn eu barn hwy, dylid cymell Post Office Ltd i ymwneud yn weithredol ag unrhyw gymunedau a oedd yn mynegi diddordeb mewn mabwysiadu dull a oedd yn cynnwys perchenogaeth. Fodd bynnag, gofynnodd rhai a oedd hyn yn ddull o drosglwyddo problem darparu gwasanaeth cyhoeddus o ddwylo'r Llywodraeth i gymunedau; a mynegodd eraill bryderon ynglŷn â chynaliadwyedd hirdymor patrymau o berchenogaeth gymunedol sy'n dibynnu ar ewylllys da a noddiant ariannol trigolion lleol. Mynegodd eraill bryderon ynglŷn â diogelwch, ac yr oeddynt yn amheus a oedd rôl a gwasanaethau swyddfeydd post yn addas ar gyfer perchenogaeth gymunedol, o ystyried y lefelau hyfforddiant a gwybodaeth sy'n ofynnol ar is-bostfeistri. Yr oeddynt hefyd yn amheus a ddylai mynediad i wasanaethau swyddfa bost fod yn amodol ar sefydlu mentrau cymunedol.

Ystyrid bod y patrwm perchenogaeth gymunedol yn gallu darparu'n llwyddiannus ar gyfer cymunedau gwledig o rhwng 400 a 1,000 o bobl. Ystyrid y dylid gwneud gwaith ar ganfod contract perchenogaeth gymunedol a fyddai'n help i hwyluso datblygiad y model perchenogaeth gymunedol. Fel y nodwyd gan Ffederasiwn Cenedlaethol yr Is-bostfeistri, mae yna hefyd reoliadau gwasanaeth ariannol y mae is-bostfeistri'n cadw atynt, ac mae hyn yn creu problemau pellach wrth geisio ehangu'r syniad ymhellach yn y maes hwn.

Mae mwyafrif llethol y swyddfeydd post yn fusnesau preifat, masnachol. Ni fydd sicrhau bod cymuned yn rhedeg ei swyddfa ei hun yn ddigon, ar ei ben ei hun, i wneud y swyddfa'n hyfyw o safbwynt Post Office Ltd.

Ond ar hyn o bryd y mae yn y DU ryw 150 o siopau ffyniannus sy'n eiddo i'w cymunedau, ac mae llawer o'r rhain eisoes yn cynnwys swyddfeydd post. Y mae'n amlwg o'r sylwadau a dderbyniwyd fod yna ddiddordeb eang yn y syniad o sefydlu rhagor. Ers derbyn y sylwadau, mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi adolygiad Quirk o reolaeth a pherchenogaeth gymunedol dros asedau, 'Making Assets Work', ac wedi cyhoeddi ei hymateb, sydd yn cyflwyno cynigion ymarferol ar gyfer dileu rhwystrau yn erbyn cynyddu perchenogaeth gymunedol. Mae Adolygiad Quirk yn cydnabod y gall perchenogaeth gymunedol chwarae rôl o ran gwella'r amgylchedd lleol a rhoi mwy o fudd i bobl leol o ddyfodol eu hardal.

Mae'r Llywodraeth yn dymuno hybu rhagor o swyddfeydd post sy'n cael eu rhedeg gan y gymuned, lle bo'r rhain yn hyfyw. Rydym yn cydnabod bod y prosesau'n gallu bod yn hynod anodd. Bydd y Llywodraeth, felly, yn gweithio gyda budd-ddeiliaid i sicrhau bod cyngor priodol ar gael i gyfranogion, a bod perchenogaeth gymunedol yn cael ei hyrwyddo fel dull posibl o gynnal gwasanaethau swyddfa bost pan nad oes dewisiadau eraill ar gael. Byddwn yn disgwyl hefyd i Post Office Ltd gynnal trafodaethau adeiladol gyda grwpiau sy'n cyflwyno achos hyfyw dros berchenogaeth gymunedol dan yr amgylchiadau hynny.

# Y Camau Nesaf

Mae'r Llywodraeth yn credu ei bod yn bwysig gweithredu ei strategaeth ar gyfer y rhwydwaith swyddfeydd post cyn gynted ag y bo'n ymarferol a chyn gynted ag sy'n gyson â pharatoi a chynllunio cadarn, ar ôl dod i'w phenderfyniadau terfynol.

Mae'r camau allweddol i'r Llywodraeth yn cynnwys sicrhau caniatâd y Comisiwn Ewropeaidd i roi cymorth gwladwriaethol ar gyfer y pecyn ariannu gan y Llywodraeth sy'n sail i'r strategaeth ar gyfer y rhwydwaith swyddfeydd post. Bydd hysbysiad yn cael ei gyflwyno'n awr. Yn ychwanegol at hynny, bydd gofyn cymeradwyaeth y Senedd i elfennau o'r pecyn ariannu, a byddwn yn ymofyn hyn cyn gwyliau Seneddol yr Haf.

Mae'r Llywodraeth yn arbennig o awyddus bod mesurau a fydd yn helpu i ffrwyno neu leihau colledion y rhwydwaith, a lleihau ansicrwydd niweidiol i gwsmeriaid ac is-bostfeistri ynglŷn â'r ddarpariaeth o wasanaethau i'r dyfodol, yn cael eu symud ymlaen cyn gynted ag y bo modd. Mae'r rhaglen cau gorfodol ar gyfer swyddfeydd post, ynghyd â chyflwyno Allgymorth, yn flaenoriaeth felly.

Bydd y Llywodraeth yn parhau i ddatblygu cynigion ynglŷn â'r posibilïadau o ddatganoli mwy o gyfrifoldeb am benderfyniadau ynglŷn â'r ddarpariaeth o wasanaethau i awdurdodau lleol a'r gweinyddiaethau datganoledig, ac o ddarparu mwy o hyblygrwydd ar gyfer penderfyniadau ariannu lleol.

Bydd Post Office Ltd yn datblygu ei raglen ar gyfer newid y rhwydwaith oddi mewn i fframwaith y meini prawf mynediad, a'r ffactorau ehangach y bydd gofyn iddo eu cymryd i ystyriaeth neu eu trafod wrth ddatblygu cynigion dan y cynllun ardal ar gyfer cau swyddfeydd a gwneud newidiadau eraill yn y ddarpariaeth o wasanaethau. Yn y lle cyntaf, bydd hyn yn gofyn dadansoddiad helaeth, fesul swyddfa, o nodweddion a pherfformiad ariannol y rhwydwaith presennol, ac o'r defnydd a wneir ohono, er mwyn canfod a chloriannu dewisiadau ar gyfer newid. Bydd Post Office Ltd yn cychwyn y broses hon ar unwaith, fel ymarfer dadansoddi data cynhwysfawr. Yr ail gam fydd ymofyn gwybodaeth a mewnbwn gan bartion perthnasol, gan gynnwys Postwatch, is-bostfeistri ac awdurdodau lleol, wrth i gynigion ar gyfer cynlluniau ardal gael eu datblygu ar gyfer ymgynghori cyhoeddus. O ychwanegu'r cyfnod cyn-ymgynghoriad at y cyfnod chwe wythnos o ymgynghori cyhoeddus, mae'r broses gyfan yn caniatáu cyfnod rhesymol ar gyfer dadansoddi a chloriannu cynigion ar y lefel leol.

Ar lefel genedlaethol, mae Post Office Ltd yn rhagweld y bydd yn gallu cynnwys ei raglen ar gyfer ail-lunio'r rhwydwaith mewn tua 50–60 o gynlluniau ardal, wedi eu seilio'n bennaf ar grwpiau o etholaethau seneddol. Mae Post Office Ltd yn bwriadu datblygu'r cynlluniau hyn yn raddol dros gyfnod o 12–15 mis o ganol haf 2007 ymlaen, ac erbyn mis Gorffennaf bydd wedi cyhoeddi amserlen ar gyfer cyhoeddi cynlluniau ar gyfer pob ardal. Ei nod yw cwblhau'r rhaglen ar gyfer cau swyddfeydd ac ail-lunio'r rhwydwaith erbyn diwedd 2008.

Atodiad A:

# Rhestr Atebwyr

Abberley Parish Council  
Abbotskerswell Parish Council  
Abbott DM  
Abbott P  
Abell BJ  
Aberdeen City Council  
Aberdeenshire Council  
Aberlady Community Association  
Abingdon Town Council  
Aborfield & Newland Parish Council  
Acourt B  
Action with Communities in Rural England  
Acton Turville Parish Council  
Adam B (MSP)  
Adams CF,DPW,RV,ML  
Adams P  
Adams T  
Ade P  
Ade S  
Adey F/Gable Tea Rooms  
Adie J  
Adisham Parish Council  
Adkins Mrs&Mrs  
Advice NI  
Age Concern England/Jones G  
Age Concern Islington/Tansley K  
Age Concern Lerwick/Erskine A  
Age Concern Ripon/Rainer P  
Age Concern/Huskinson M  
Age Concern/Simmonds T  
Age Concern/Spye J  
Age Concern/Turnock H  
AICMO  
Aitken E  
Alconbury Parish Council  
Alconbury Weston Parish Council  
Alexander D  
Alexander D (MP)  
Alexander P  
Alford Parish Council  
Alford S  
Alfred R  
All Party Parliamentary Group on Rural Services/Dunne P (MP)  
Allen A  
East Hoscote Parish Council  
Allen B  
Allen CVD  
Allen P  
Alvsaker R  
AMICUS  
Anand M Reverend  
Anderson A  
Anderson E  
Anderson KME  
Anderson M  
Anderson Mr&Mrs G  
Anderson S  
Andrew J  
Andrews M  
Andrews Mr&Mrs C  
Andrews Mrs  
Andross Community Council  
Anglesey Federation of Womens Institutes/Uchaf S  
Anson B  
Antaur JW  
Applewhite Mrs  
Archbishops' Council, Church Buildings Division/Griffiths P  
Archer E  
Archer IJ  
Ardivicone D  
Ardrishaig Community Council  
Andross Community Council  
Argyll & Bute Council  
Arkell J  
Arlington J  
Armagh District Council  
Armstrong J  
Arne Parish Council  
Arthur JS  
Arthur JW  
Arthur Rank Centre  
Ashingdon Parish Council  
Ashurst Wood Parish Council  
Association of British Credit Unions Ltd  
Association of Independent Cash Machine Operators  
Association of Scottish Community Councils ASCC  
Attfield S  
Attwood Ms  
Auphlet DJ  
Austin AM  
Austin HE  
Avery L  
Avory G  
Awre Parish Council  
Axbridge Town Council  
Aylesbury Vale District Council  
Ayliffe S  
Ayton Village Community Council  
Badgett FD  
Bailey A  
Bailey Mr  
Baines P  
Baker D/Lydbury English Centre Ltd  
Baker H  
Baker JM  
Balfour Scott D  
Balhatchet P  
Ball EE  
Ball P  
Ballantine TA  
Ballatonet P  
Baltonborough Parish Council

Bamber J  
 Banks H&D  
 Banks S  
 Banner M  
 Bantick A  
 Bantick A/Cairngorm Music  
 Bantick H  
 Barber S  
 Barcis J  
 Bardgett F&A  
 Barham Parish Council  
 Barker CD  
 Barnes MJ  
 Barnes R/Select Research Ltd  
 Barnett C  
 Barnett P  
 Barnett S  
 Barnsley MBC  
 Barr C  
 Baron J MP  
 Barret J (MP) and Margaret Smith MSP  
 Barrett P  
 Barrington Parish Council  
 Barrios C  
 Barton A  
 Barton B  
 Barton Parish Council  
 Barton St David Parish Council  
 Basingstoke & Deane Borough Council  
 Bass JM  
 Bassetlaw District Council  
 Bassington KJ/Roxwell Wednesday Club  
 Bate B  
 Bateman R  
 Bates D  
 Bates H/Milton House Holiday Lets  
 Bates MG  
 Bates RD  
 Bates S  
 Bathford Parish Council  
 Bathgate M  
 Baughen K  
 Bawden R  
 Bawdsey Parish Council  
 Bawn T  
 Baxter D  
 Baxter L  
 Bayliss NC  
 Bean Residents Association  
 Bean T  
 Bear P  
 Bearcroft B  
 Beard J  
 Beasley W  
 Beattie WM  
 Beaumont B  
 Beckett J Reverend  
 Bedford L  
 Bedlow Women's Institute  
 Beeching J  
 Bees A  
 Beetham Parish Council  
 Belbroughton Parish Council  
 Beleus EE  
 Bell A  
 Bell B  
 Bell JR  
 Bell S  
 Bennett AW  
 Bennett J  
 Bergin S  
 Berkeley Town Council  
 Berry C  
 Berry G  
 Berryman Mr  
 Bertie C  
 Better Government for elderly in South Lanarkshire  
 Bettyhill, Strathnaver & Altnaharra Comm. Council  
 Biawith & Subberthwaite Parish Council  
 Bickford J  
 Bideford Town Council  
 Biggs K  
 Bijman Adirana  
 Billericay Town Council  
 Billing T  
 Bingham A  
 Birch HJ  
 Birches Community Association  
 Birchwood B  
 Birmingham City Council/Hill M  
 Birmingham City Council/Hughes S  
 Birmingham City Council/Kirk L  
 Bishop D&M  
 Bisley-with-Lypiatt Parish Council  
 Black MC  
 Blackawton Parish Council  
 Blackburn and District Trades Council  
 Blackburn with Darwen BC  
 Blackford Community Council  
 Blackler GFA  
 Blackwood N  
 Blaikie G  
 Blairgowrie and Rattray Community Council  
 Blakemore R  
 Blandford District Trades Council  
 Blandford Forum Town Council  
 Blean Parish Council  
 Bletchley & Fenny Stratford Town Council  
 Blewitt C  
 Blewn J  
 Blockley Parish Council  
 Boardman K  
 Boardman W  
 Boddington C  
 Boddington Parish Council  
 Bolingbroke L  
 Bolney and Cowfold Parish Councils  
 Bonehill Mr  
 Bonner L  
 Bonson G  
 Boonham A J  
 Booth P  
 Borough of Pendle  
 Borthwick  
 Bossom P  
 Boston Borough Council  
 Boughton RH  
 Bourne FA  
 Bournemouth Borough Council  
 Bourton Parish Council  
 Bowes Parish Council  
 Bowhay J  
 Bowman M  
 Bowyer P  
 Boyce J  
 Brachtvogel P  
 Braco & Greenloaning Community Council  
 Bradford & Cookbury Parish Council  
 Bradford A  
 Bradford Metropolitan District Council  
 Bradford on Avon Town Council  
 Brady G (MP)  
 Braggins M  
 Brain L/Gem Jewellery Ltd  
 Braintree District Council/Barrett K  
 Braintree District Council/Bolter S  
 Braithwaite A  
 Bramall D and Jennifer and David Thomson  
 Bramley Parish Council  
 Brandean and Hinton Ampner Parish Council  
 Brandon & Byshottles Parish Council  
 Braunton Parish Council  
 Brayshaw R  
 Breed C (MP)  
 Brett P  
 Brewer D  
 Brewer M  
 Brice M  
 Brice, Sarah/Rachel/David and Anna Brice  
 Bridport Local Area Partnership  
 Brighton and Hove City Council  
 Brill Parish Council  
 British Chambers of Commerce  
 Britnell BG & L

## Y Rhwydwaith Swyddfeydd Post

Broadbent S  
Broadley M  
Brocklehurst S  
Brocks P  
Brocton Parish Council  
Bromsgrove Council  
Bronstein JM  
Brooke E  
Brooks H  
Brora Community Council  
Brotherton LW  
Brough Parish Council  
Broughton A  
Brown EB  
Brown ED  
Brown Mrs  
Brown R (MP)  
Bruce J  
Bruce N  
Bruno F  
Bryant F  
Bryer-Parsons D  
Buchanan V  
Buckden Parish Council  
Buckham CJ  
Buckland Brewer Parish Council  
Buckland D  
Buckland Monachorum Parish Council  
Buckley Antiquarian Society  
Buckman B  
Buckridge T  
Budd L/The 100 Minute Press Ltd  
Bufton IJ  
Bufton SA  
Bullough D and David Midgely  
Burden R (MP)  
Burgess Hill Town Council  
Burgess S  
Burke D  
Burke J/Flourishing People Ltd  
Burke J/Townswomen Today  
Burke Mr  
Burke VM  
Burney GG  
Burnham Health Centre  
Burnip A  
Burnmouth Community Council  
Burra and Trondra Community Council  
Burrell P  
Burrows SM  
Burton Mr&Mrs  
Bury Parish Council  
Busby Mr&Mrs  
Butcher B  
Butler MJ  
Butterfill J (MP)  
Buttle M  
Bwrdd Yr Iaith Gymraeg (Welsh Language Board)  
Byrne BH  
Byrne F  
Byrne MP  
Byrt M  
Caernarfon Civic Society  
Cain G  
Cairns J  
Callicott B  
Calmady-Hamlyn Mrs  
Cambridgeshire County Council  
Cameron J  
Campaign for Community Banking Services  
Campaign for the Protection of Rural Wales  
Campaign to Protect Rural England/Bawtree R  
Campaign to Protect Rural England/Willis G  
Campbell J  
Campbell S  
Campton & Cruickshanks and Silsoe Parish Councils  
Canonbie and District Council  
Canterbury City Council  
Carhampton Parish Council  
Carleton Rode Parish Council  
Carley J  
Carlisle City Council/Bainbridge J  
Carlisle City Council/Sutton Z  
Carlisle Parish Councils Assoc.  
Carmarthenshire Council  
Carmichael A (MP), Tavish Scott MSP  
Carmichael A (MP), Wallace MSP  
Carmichael CD  
Carney A  
Carpenter J  
Carpenter Mr&Mrs T  
Carter C  
Carter G  
Carter J  
Cartwright EM  
Cash W (MP)  
Cassop-cum-Quarrington Parish Council  
Castletown and District Community Council  
Caton-with-Littledale Parish Council  
Cawkwell K  
Cawood Parish Council  
Ceredigion County Council  
Cerne Valley Parish Council  
Chaddesley Corbett Parish Council  
Chalford Parish Council  
Chalmers D  
Chamberlain R  
Chambers C  
Chandler C and Nick Whiteley  
Chapman B (MP)  
Charfield Parish Council  
Charles Mr&Mrs  
Charles R  
Checkley A  
Chelmsford Borough Council  
Cherry JM  
Cherwell District Council  
Chesham Bois Parish Council  
Chesham Evening Townswomen  
Cheshire & Warrington Rural Partnership  
Cheshire County Council  
Cheshire Rural Retail Advisory Partnership  
Chester le Street District Council  
Chesterfield Borough Council  
Chestfield Parish Council  
Chetnole and Stockwood Parish Council  
Chichester District Council  
Chidgey A  
Chilcompton Society, The  
Child Okeford Parish Council  
Child S/Rackenford Village Shop Company  
Chitham R  
Chowcat H  
Christleton Parish Council  
